# ECO'R WYDDFA

RHIF 327 TACHWEDD 2005 PRIS 40c


## CROESAIR NEWYDD

Dymuna'r tîm golygyddol ddiolch i Dafydd Evans am baratoi'r Croesair am ddeuddeng mlynedd. Croeso hefyd i Tecwyn, y croeseiriwr newydd – wele'r croesair cyntaf ar dudalen 19.

# Cerddoriaeth i Ymlacio Iddo

Mae cryn ganmoliaeth i CD newydd, *Mellow Moments*, o gerddoriaeth i'r corn *flugel* yn cael ei chwarae gan Iwan Williams o Ddeiniolen. Mae arni 15 trac o gerddoriaeth tyner ac aeddfed a ddisgrifir fel *'bwyta siocled melfedaidd hyfryd, hynod o gyfoethog, a methu'n glir â rhoi'r gorau iddi'*.

Mae pobol Bro'r Eco yn gwybod am lwyddiannau Iwan ar hyd y blynyddoedd a dyma garreg filltir arall yn ei yrfa.

Dyma ddywed un adolygydd mewn papur Saesneg:

'Mae gan Iwan Williams dalent aruchel ac mae'n berfformiwr gyda greddf gerddorol brin. Ganddo ef mae'r sain *flugel* gorau a glywais i erioed. Nid yw byth yn colli'r purdeb, pa mor gymhleth bynnag fo'r trefniant. Mae ganddo reolaeth berffaith ar ei sain a'i anadl, yn llwyddo i dawelu ei sain i weddu hefo gweddill y gerddorfa neu i orffen y darn ar nodyn buddugoliaethus.'


Dyma'r anrheg Nadolig perffaith i bawb sy'n mwynhau unrhyw fath o gerddoriaeth. Eisteddwch yn ôl, ymlaciwch a mwynhewch.

***Mellow Moments**, Iwan Williams*

I gael copi o'r CD ffoniwch (01286) 871174. Pris £10.

* * *

Dymuna Iwan ddiolch am bob cymorth a gafodd ac i bawb o'r ardal am gefnogi'r CD.




## Gwerthwr Gorau



*Alwyn Elis ar ran Gwasg Gwynedd, Caernarfon, argraffwyr* Eco'r Wyddfa *yn derbyn gwobr am y llyfr a werthodd fwyaf o fewn y flwyddyn dwytha'* – Y dyn 'i Hun, *gan Hywel Gwynfryn. Yn y llun hefyd y mae Alun Pugh, Gweinidog yn y Cynulliad, oedd yn cyflwyno'r gwobrau yn y seremoni yn Aberystwyth.*

## CYNGERDD

**Mynydd Gwefru Llanberis**

26 Tachwedd am 7.00 o'r gloch

**ANNETTE BRYN PARRI**

yn cyflwyno eitemau oddi ar ei CD newydd

**'Un Mondo a parte'**

yng nghwmni

**Côr Meibion Dyffryn Peris • Hogia'r Wyddfa**
**Sian Wyn Gibson • Emyr Wyn Gibson**
**Lyndsey Vaughan Parry a phlant Ysgol Cae Top**
**Iola Bryn Jones**

Elw tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd

Tocynnau ar gael trwy ffonio:
**(01286) 870636**
**(01286) 871006**
**(01248) 360191**

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 327**
**TACHWEDD 2005**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Tîm Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**DEINIOLEN:** Mrs Margaret Cynfi Griffith, (870394)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


Cefnogwch ein Hysbysebwyr

**Y RHIFYN NESAF**

**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 21 TACHWEDD**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 1 RHAGFYR**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| RHAGFYR | 21 Tachwedd | 1 Rhagfyr | Caeathro | Clive James (677 438) |

## *Llythyrau*

Annwyl Olygydd,
Siom fawr oedd darllen fod Dafydd Evans yn rhoi'r gorau i gynllunio'r croeseiriau. Roeddent yn rhai arbennig iawn, roddodd oriau o bleser i lawer wrth ddyfalu a chwilota i geisio eu datrys.

Llawer o ddiolch am yr holl waith o baratoi'r croeseiriau oedd yn dal mor ffres ag erioed. Gobeithio y bydd yn ôl yn fuan i gadw'n meddyliau yn fyw ac effro.
Yn gywir
Margaret Wyn Roberts
Caernarfon

---

### Noson Ddifyr i'ch Clwb neu Gymdeithas

Her i'r rhan fwyaf o glybiau a chymdeithasau lleol yw cael siaradwyr newydd i drafod pynciau diddorol a gwreiddiol.

Does dim rhaid i ni ond edrych ar y newyddion ar y teledu neu ddarllen unrhyw bapur newydd i sylweddoli'r trychinebau sy'n digwydd yn y byd. Mi fedrwn NI wneud gwahaniaeth, ac mae Jane Evans, Swyddog Datblygu Gwynedd Gynaladwy, ar gael i ymuno â chi ac yn cynnig sgyrsiau / sesiynnau fydd yn canolbwyntio ar gamau ymarferol a hawdd y gall pobl ddewis i fod yn fwy amgylcheddol yn eu bywydau o ddydd i ddydd, yn ogystal â chael pobl i gyfrannu a datblygu syniadau eu hunain.

Rhai o'r pynciau a drafodir fydd arbed ynni, ailgylchu, lleihau gwastraff, teithio, bwyd lleol a siopa'n lleol. Gallwch fod yn siŵr y bydd pawb yn mynd adref wedi mwynhau'r noson ac wedi cael rhywbeth i gnoi cil arno. A gwell byth, ni fydd yn rhaid i chi dalu ceiniog am y gwasanaeth – mae Gwynedd Gynaladwy yn cael ei ariannu gan Gyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Cymru a Mantell Gwynedd.

Felly peidiwch ag oedi dim, cysylltwch â Jane ar (01766) 543 033, neu cewch e-bostio: post@gwyneddgynaladwy.org.uk

### CWPAN CORONI BRWYDR Y BANDIAU 2005
**Clwb Ifor Bach, Caerdydd**
**22 Hydref**

Mae Clwb Ifor Bach yn falch o gyhoeddi y bydd noson gyntaf 'Cwpan Coroni Brwydr y Bandiau' yn digwydd yng Nghlwb Ifor Bach nos Sadwrn, 22 Hydref 2005, am 8pm.

Mae'r Clwb wedi dod ag enillwyr cystadleuaeth Brwydr y Bandiau C2 / Mentrau Iaith Cymru 2005, sef y band NO STAR o ardal Wrecsam, a fydd yn brwydro yn erbyn y band Y DERWYDDON o ochrau Caernarfon, enillwyr cystadleuaeth Brwydr y Bandiau Cymdeithas yr Iaith 2005. Mi




fydd yna set gan JAVA, enillwyr Brwydr y Bandiau llynedd, i orffen y noson, tra bod y beirniaid yn pendroni pwy sydd wedi ennill y tlws a'r teitl arbennig yma.

Y beirniaid ar y noson fydd: Owain Schiavone *(Cymdeithas yr Iaith Gymraeg)*; Bedwyr ap Gwyn *(Menter Iaith Abertawe)* a Ian Cottrell *(Bandit – S4C)*

Fe fydd y troellwr adnabyddus, DAFYDD DU, o C2 (BBC Radio Cymru) yn diddanu'r gynulleidfa rhwng y bandiau. Dai Lloyd, Rheolwr Adloniant Cymraeg Clwb Ifor Bach, fydd yn cyflwyno'r tlws i'r band buddugol a bydd yr enillwyr yn cael eu gwahodd yn ôl i chwarae yn yr un ornest yn 2006.

Meddai Dai Lloyd: 'Mae hon yn ffordd arbennig i fandiau ifainc Cymru godi eu proffeil yng Nghymru ar ôl yr holl waith caled gan C2, y Mentrau Iaith a Chymdeithas yr Iaith Gymraeg. Roeddwn yn teimlo ei fod yn gyfle i gadw'r diddordeb yn y bandiau. Mae'n bwysig bod Clwb Ifor Bach yn helpu datblygiad bandiau ifainc Cymru, achos nhw, mwy na dim, yw dyfodol y Clwb.'

**Nos Sadwrn Hydref 22, 8pm-11pm**
Tocyn: £5; £4 myfyrwyr; £3 i aelodau
Am ragor o wybodaeth: dai@clwb.net; 029 20232199; 07811 831117; www.clwb.net; <http://www.clwb.net>

### BOCSUS NADOLIG

Byddwn yn casglu bocsus esgidiau yn llawn anrhegion eleni eto fel rhan o waith Ymgyrch Plentyn Y Nadolig *(Operation Christmas Child)*.

Os nad yw eich ysgol neu'ch Ysgol Sul neu fudiad arall yn lleol yn casglu'r bocsus mae croeso i chi gysylltu â mi am ragor o fanylion.

Bydd angen i'r bocsus ddod i law erbyn diwedd mis Tachwedd.

Mae'r gwaith hwn wedi cael cefnogaeth fawr dros y blynyddoedd a diolchwn ymlaen llaw am bob haelioni eleni eto.
Yn gywir
John Pritchard


Gwaith Plymio a Gwres Canolog
**Dafydd Williams**
(Rhiwlas)
**01248 353815**
Symudol:
**07887 525118**
Trin a Thrwsio Boileri
Tanwydd olew
*Gwasanaeth lleol dibynadwy a da*
CORGI ac OFTEC



*Wavell Roberts*
**CIGYDD**
**London House**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 673574**
PEN CIGYDD Y FRO
Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!



Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
**(01286) 650247** neu **(07780) 811617** (symudol)
Eifion Hughes **(7 diwrnod)**
*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*

# CÔR ERYRI

Cychwynnodd tymor newydd Côr Eryri ddiwedd Medi a chroesawyd yr aelodau i gyd yn ôl gan yr Arweinydd, Shân Wheway. Braf oedd clywed fod pawb wedi cael gwyliau dedwydd ac yn wir braf iawn oedd croesawu aelodau newydd i'n plith, sef Janet George o Lanrug a Siân Williams o'r Felinheli.

Anfonodd yr Arweinydd ein llongyfarchion a'n cofion hefyd at ddwy aelod, sef Bethan Gruffudd a Bethan Williams, ar enedigaeth mab bach bob un yn ystod misoedd yr haf. Gobeithio'u bod nhw bellach wedi cael trefn go-lew ac y byddan ni'n eu gweld yn ôl yn y Côr yn fuan iawn.

Llongyfarchwyd Anwen McGuffie ar enedigaeth ei mab hithau hefyd yn ystod mis Mai ac am lwyddo yn wyrthiol i ddod yn ôl i'r Côr mewn pryd i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Diolchodd y Cadeirydd, Megan Roberts, i'r Côr am eu hymroddiad a'u gwaith caled iawn yn ystod 2004–05 a dymunodd yn dda i bawb ar y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ystod mis Rhagfyr 2004 cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig llwyddiannus yng Nghapel Cysegr Bethel gydag elw anrhydeddus yn mynd tuag at Ysgol Pendalar a *Breast Cancer Care*.

Yna wedi derbyn y newyddion ei fod wedi ei ddewis am yr ail dro fel un o bedwar côr yn rowndiau cyn-derfynol Côr Cymru 2005, bu'r Côr yn hynod brysur yn paratoi ar gyfer y gystadleuaeth. Cafwyd penwythnos hwyliog a chyffrous yn Aberystwyth yn ystod mis Chwefror, gyda phawb yn mwynhau'r cystadlu.

Teithiodd y Côr i Ryduchaf, ger y Bala, yn ystod mis Mai ar wahoddiad Meibion Llywarch ac yna roedd rhaid sticio iddi ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Eryri, lle llwyddwyd i gipio'r drydedd wobr. Yn dilyn y cystadlu cafwyd pryd bwyd bendigedig a noson hwyliog tu hwnt yn y Felinheli. Diolch i Ruth Rowlands am drefnu'r cyfan.

Bellach, ar drothwy blwyddyn arall, etholwyd pwyllgor a swyddogion newydd gyda Megan Roberts yn parhau fel Cadeirydd, mae Wena Williams wedi ei hethol yn Ysgrifennydd ac Angharad Hughes yn Drysorydd. Pob hwyl iddynt ar y gwaith. Diolch o galon i'r cyn-swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am eu gwaith y llynedd.

Bydd Cyngerdd Nadolig Côr Eryri yng Nghapel y Rhos Llanrug ar nos Sul, 11 Rhagfyr am 7.00 o'r gloch. Yn cymryd rhan fydd Côr Aelwyd yr Ynys, Elfed Morgan Morris, y Prifardd Ifor ap Glyn a'r delynores dalentog, Glain Dafydd. Bydd y tocynnau ar gael gan aelodau'r Côr a'r elw tuag at achosion lleol.

A chofiwch, rydym yn croesawu aelodau newydd bob amser. Peidiwch â bod yn swil – codwch y ffôn neu holwch yr aelodau presennol os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymaelodi, neu os dymunwch i'r côr gymryd rhan mewn cyngerdd. Cysylltwch â (01286) 872001 am fwy o wybodaeth.


CYNGERDD NADOLIG

**Côr Eryri**

yng nghwmni

**CÔR AELWYD YR YNYS**

**IFOR AP GLYN**

**ELFED MORGAN MORRIS**

**GLAIN DAFYDD**

Nos Sul Rhagfyr 11eg 2005

Capel y Rhos Llanrug 7.00 pm

Mynediad: oedolion £5

Plant a phensiynwyr £3

Elw tuag at Achosion Lleol

Tocynnau ar gael gan Siân Wheway ar

**01286 872001**

neu wrth y drws ar noson y cyngerdd


# Canrif a Hanner Eglwys Crist Llandinorwig

Ddydd Llun, 24 Medi 2007, bydd Eglwys Llandinorwig yn dathlu Canmlynedd a hanner ei chysegru. Cafodd ei chysegru ar 24 Medi 1857. Gosodwyd carreg sylfaen yr eglwys ar 19 Ebrill 1855, ac felly deunaw mis a gymerwyd i godi a chwblhau'r adeilad. Yn naturiol bydd dathliadau i nodi Canmlynedd a hanner ym Medi 2007. Buasem yn falch iawn o dderbyn unrhyw beth sydd gan ddarllenwyr yr *Eco* am Eglwys Llandinorwig yn ystod ei chanmlynedd a hanner; boed yn llun, adroddiad neu atgof. Dychwelir unrhyw beth gwreiddiol yn syth yn ôl. Bwriedir cyhoeddi llyfr i ddathlu'r achlysur ynghyd ag arddangosfa.

Derbynnir unrhyw beth yn ddiolchgar gan:

Mr Brian Price, 14 Hafod Olau, Deiniolen LL55 3LP (01286 872460)

neu


Mrs Eileen Hughes, Prenteg, Deiniolen LL55 3LS (01286 872708)

Diolch i chwi.


ARDDANGOSFA

**J.N.F.**

2 - 27 o Dachwedd 2005



Detholiad o waith y diweddar arlunydd a cherflunydd:

**John Neville Foulkes**

**(1937 - 1997) Llanberis**



**TAFARN BRYNGWNA**

**Caeathro**

Croeso mawr i bawb i'r **'Bryngwna'** yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch **(01286) 674568** i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw



**Sêl Nadolig**

**BEICS MENAI**

**Gwesty Carreg Brân**
**Llanfairpwll**
**Ynys Môn**

**Dydd Sul, 30 Hydref**

- **Pob math o feics gyda rhywbeth ar gyfer pawb**
- **Bargeinion ar y diwrnod**

**Beics Menai**
**1 Cei Llechi, Caernarfon**

**01286 676804**
neu **07770 91007**



**Gwyneth Pritchard**

**(01286) 650 060**


**YSGOL FEITHRIN WAENFAWR**

Cynhelir sêl teganau yng Nghanolfan Waenfawr

12 fed Tachwedd
10.30

*Croeso i bawb*

Elw at gronfa Ysgol Feithrin, Waenfawr


I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo

**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr**
**PORTHAETHWY**

Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**

Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc



*Blodau Racca*

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

**RHODD O'R GALON YW BLODAU**

## CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED.
Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o Gyngor Cymuned Waunfawr ar 5 Hydref. Y pwnc dan sylw oedd y newidiadau arfaethedig i fersiwn drafft Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd. Roedd y Cyngor yn dal o blaid codi tai fforddiadwy rhwng Caeathro Bach a Hen Gapel, ar yr amod fod mynedfa ar gyfer cerbydau argyfwng a chynnal a chadw yn unig, i'r cae pêl-droed; darparu pafin trwy'r pentref; codi tai ger Gwern, yn amodol ar beidio defnyddio lôn Tai Glangwna fel y fynedfa; o blaid plotiau tai fforddiadwy rhwng y cae chwarae newydd a chyn adeiladau fferm Cefn y Gof; a chodi pafin diogel o siop y pentref yn y garej i Bont Llanbeblig. Amser a ddengys beth a fydd!

GWASANAETHAU'R CAPEL.
Disgwylir cynnal y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Tachwedd:
6: 11.00 Ysgol Sul
13: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Dafydd Hughes (Cymun)
20: 11.00 Ysgol Sul
27: 10.00 Parch Reuben Roberts
11.00 Ysgol Sul

ADNEWYDDU POLION TRYDAN. Er mwyn adnewyddu dau bolyn trydan pren o flaen Tai Glangwna bydd cwmni trydan Scottish Power yn datgysylltu'r pŵer trydanol, a gofynnir i berchnogion beidio parcio o flaen y teras am gyfnod penodedig ganol mis Tachwedd.

CLWB MERCHED CAEATHRO. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o'r Clwb Merched ar 22 Medi. Croesawyd pawb gan Carey Jones cyn iddi drosglwyddo'r awenau i'r Cadeirydd newydd, Iona Ceiriog.

Etholwyd swyddogion 2006/07 a threfnwyd rhaglen fras o weithgareddau ar gyfer y tymor. Cytunwyd i gynnal pob cyfarfod ar nos Iau olaf y mis, ond gyda chinio Nadolig rhywbryd ym mis Rhagfyr. Diolchodd Iona i Carey Jones, Bethan Iwan a Gwenno Bebb am eu gwaith y llynedd.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH
Fel rhan o'r Gwasanaeth, roedd cais i'r plant a phobl ifanc ysgrifennu eu 'Diolchiadau' ar 'ddeilen' bapur a hongian y ddeilen ar 'goeden' yn y blaen. Mae'n ddiddorol darllen eu blaenoriaethau: Teulu, Mam a Dad, Iesu Grist, Bwyd, Cartref, Chwaraeon, Gwyliau, Trydan, Diod, Ffrindiau, Pres, Duw.

HOLIADUR. Mae rhai aelwydydd wedi derbyn Holiadur ynglŷn â gwaith posibl Canolfan y Capel yn y gymuned. Gofynnir iddynt ddychwelyd yr holiadur, wedi'i gwblhau, mor fuan ag sy'n bosibl trwy eu 'postio' yn ôl o dan ddrws ffrynt Canolfan y Capel.

NOSON LAWEN. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf fu'r Nosweithiau Llawen sydd wedi'u cynnal yng Nghanolfan y Capel er mwyn ceisio lleihau dyled adnewyddu'r adeilad. Bydd Alwyn Sion yn arwain y noson eleni, ar 29 Tachwedd, gyda Dafydd Iwan, Sian Eirian a Pharti Tegeirian. Cost tocynnau fydd £5 i oedolion a £3 i blant. Byddant ar gael ymlaen llaw gan swyddogion y Capel ac aelodau y pwyllgor codi arian.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ym mis Hydref oedd: £40: (14) Richard a Carey Jones, Tryfan; £25: (51) Dafydd Roberts, 5 Brynteg; £15: (64) Vera Roberts, 10 Erw Wen; £5: (103) Edwina Hughes, Bryn Eden.

APÊL AMBIWLANS AWYR. Mae plant yr Ysgol Sul yn casglu pres 'arian' *(5c, 10c, 20c, 50c)* er mwyn codi arian at gostau rhedeg Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru. Maent yn annog pawb yn yr ardal i ddilyn eu hesiampl a chasglu eu harian mân o heddiw tan fis Ionawr.

CLWB JIWDO SEGONTIWM. Bydd Cyfarfod Blynyddol y Clwb ar nos Fercher, 23 Tachwedd. Am 5.30 bydd cyfle i weld doniau'r plant wrth iddynt ymarfer. Wedyn, am 6.30, bydd adroddiadau cyllidol ac ar y cynnydd mewn chwaraeon hyd yma, a chyfle i ethol swyddogion a phwyllgor am y flwyddyn nesaf.

Peidiwch a
Gori ar Stori anfonwch
hi i'r Eco

## DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

LLONGYFARCHIADAU mawr i Iwan a Lorraine Williams ar enedigaeth eu mab, Owen Clark, ar 30 Medi. Dymunant ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a ffrindiau am y cardiau, arian a'r anrhegion gwerthfawr i Owen.

Dymuna Alwyn a Valmai hefyd ddiolch i bawb am eu dymuniadau da iddynt ar ddod yn Daid a Nain am y tro cyntaf.

HOFFAI Pat Lovell, 1 Gwyrfai Terrace, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau, cymdogion a hefyd staff gwesty Fictoria a 'Cutting Parlour' am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth tra'n derbyn triniaeth yn ddiweddar.

Diolch hefyd i staff Ysbyty Gwynedd am bob gofal.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor yn Nhŷ Elidir nos Lun, 17 Hydref. Yn absenoldeb y Llywydd, llywyddwyd gan Buddug Jones. Ein gŵr gwadd oedd y Prifardd Ieuan Wyn a chlywsom ganddo beth o hanes ei fro, ynghyd â cherddi gwych am lawer agwedd o'r fro a'i chymeriadau. Mwynhawyd y cyfan yn fawr gan yr aelodau.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Er gwaetha'r glaw mawr daeth aelodau'r gymdeithas i Festri Ebenezer nos Lun i gyfarfod cyntaf y tymor newydd. Croesawyd John Eifion a Marina Jones a'u merched, Lois ac Anest, a roddodd gyngerdd ardderchog i ni.

Diolchodd Mrs Buddug Jones iddynt ar ran pawb ac roedd yn amlwg fod y gynulleidfa gyfan wedi mwynhau yr arlwy gerddorol yn fawr.

DATHLU CANMLWYDDIANT. Mrs Maggie Griffiths, gynt o 1 Maes Eilian, Dinorwig. Dymuna Jane a'i theulu ddiolch o galon am y dymuniadau da a anfonwyd i'w mam ar ei phen-blwydd yn gant oed, a hefyd am bob caredigrwydd a dderbyniodd gan ffrindiau yn ystod y blynyddoedd.

## DINORWIG


Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DATHLU CANMLWYDDIANT. Mrs Maggie Griffiths, gynt o 1 Maes Eilian. Dymuna Jane a'i theulu ddiolch o galon am y dymuniadau da a anfonwyd i'w mam ar ei phen-blwydd yn gant oed, a hefyd am bob caredigrwydd a dderbyniodd gan ffrindiau yn ystod y blynyddoedd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mair Jones, 18 Mountain Street, Caernarfon (gynt o 5 Maes Eilian) ddiolch i'w theulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a blodau a gafodd tra yn yr ysbyty. Diolch hefyd i staff Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH. Dymuna Mr Derek Williams, Bron Eilian, ddiolch i'w deulu, cymdogion a chyfeillion am y cardiau, galwadau ffôn a phob rhodd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty. Hefyd i staff Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri am eu gofal tra bu yno'n ddiweddar. Y mae yn ddiolchgar iawn i bawb.

MARWOLAETH. Bore Iau, 13 Hydref, daeth y newydd trist i'r ardal am farw Enid Rees yn Ysbyty Gwynedd, merch hynaf y diweddar Mr a Mrs Thomas Rees Edwards, Bron Eilian. Gedy un chwaer, sef Mrs Joan Rees Williams, Gors, Allt Riwth, Llanrug. Anfonwn, fel ardal, ein cydymdeimlad llwyraf â hi a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u galar.


J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr
Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

ARVONIA


- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk



## Ar Ben Arall y Lein



*Dau hapus, sef Dafydd Spencer, Llandudno a Brian Thomas, Bethel, gydag eog 9 pwys o Crawia.*

Anodd credu yn tydi, hyd at 19 Medi doedd dim glaw sylweddol wedi disgyn, a chyn i rai ddweud ei bod wedi bwrw digon, cyfeirio rydw i at be mae 'sgotwrs yn alw yn law, sef diwrnod cyfan o'i thywallt hi. Gan ei bod y cymryd dros wyth awr o law beth bynnag i weld y Seiont yn dechrau llifo.

Yn ystod dechrau Medi roeddwn wedi gwario cryn dipyn o amser yn cerdded y glannau a phrin iawn oedd y cyfrif o eog a sewin oedd wedi dal fy sylw. Gwelias rhyw ddwy haid o sewin ym mhyllau Crawia, ond doedd gan y rhain ddim diddordeb yn y bluen, gan mae'n amlwg fod eu bryd ar gyrraedd Stablau a Llyn Padarn cyn gynted â bo modd.

Does dim dwywaith fod y tymhorau yn hwyrhau, gyda thymor 2004 yn dilyn yr un patrwm â 2005. Fel yr eglurais – dechrau Medi fawr o ddim yn rhedeg ond fel mae'r mis yn dod i ben heidiau o eogiaid a sewin yn ymddangos, megis dros nos, yng ngwaelod yr afon o Lyn Garnage i lawr trwy Gaeau 'Rafon hyd at Llyn Du. Mae'r rhan fwyaf o'r darn yma wedi ei lanhau yn ystod dechrau'r flwyddyn, ac mae rhediadau a phyllau arbennig yma i bluen.

Cefais adroddiad gan Dr Robin Parry, Llanberis, ei fod wedi cael pedwar sewin braf o Gaeau 'Rafon ar 18ed o'r mis. Mi fuasai'r hen 'sgotwrs yn ei chael yn anodd i gredu bod sewin gloyw i'w cael mor hwyr yn y tymor, ond fel yna mae pethau heddiw. Y pechod yw, wrth gwrs, fod 'pysgota' ardderchog am eog yn cael ei golli drwy fod y tymor yn barod wedi ei ymestyn o 17 hyd at 31 Hydref, ond mae tystiolaeth gref fod angen cysidro ymestyn ymhellach. Mi fyddwn i'n awgrymu hyd at ganol Tachwedd. A chan fod pob pysgodyn yn cael eu dychwelyd i'r afon beth bynnag, nid oes perygl niwedio'r stoc.

Fel y dychmygwch mae'n sicr, roeddwn wedi rhyw ddechrau ysgirfennu'r darn uchod erbyn rhifyn Medi, ond gan nad oedd dim llawer yn digwydd mi roddais y ffidil yn y to a gadael y nodiadau ar y cyfrifiadur. Penderfynais ei gynnwys rŵan er mwyn dangos pa mor sydyn mae pethau yn gallu newid.

Rhyw ychydig ddyddiau ar ôl dyddiad cau derbyn erthyglau i'r *Eco* fe ddaeth y glaw, a tydi hi ddim wedi stopio bwrw ers hynny. Gyda'r glaw fe ddaeth yr eog, ac mae 'sgota ardderchog wedi bod hyd at heddiw, sef 19 Hydref.

Mae pawb yn yr ardal, wrth gwrs, yn gallu dychmygu be sy'n mynd ymlaen gan fod meysydd parcio'r Gymdeithas yn Crawia a Phontrug wedi bod yn orlawn. Felly dyma rai sydd wedi bod yn llwyddiannus. I'r rhai sydd yn waglaw, bydd yn rhaid trefnu dosbarthiadau sut i ddal yn ystod misoedd y gaeaf.

Mentraf enwi'r rhai canlynol fel y 'sgotwrs llwyddiannus ond cofiwch, fel popeth arall, mae oriau o ymroddiad wedi ei roi i allu blasu'r llwyddiant:

James Carr, Llanrug: dau am tua 7 pwys yr un. Stephen, ei frawd, nawr o'r Bontnewydd: un am 7 pwys. Islwyn Williams, Llanrug: un eto am 7 pwys. Ifan Jones, Tal y Bont: un o Stablau ar bluen am 5 pwys. Dafydd Spencer, Llandudno: pedwar i gyd ar bluen o Llyn Harri Parri, Llyn Engan a Llyn Garnage gyda phwysau yn amrywio o 5 i 9 pwys. Ernie Jacques, Llanrug: un am 7 pwys o Llyn Garnage. Clifford Thomas, Felinheli: dau am 7 pwys yr un o Crawia a Glanrafon. Kevin Morgan, Waunfawr: dau am 6 ac 8 pwys o Caeau 'Rafon. Malcolm Owen, Caernarfon: dau am 5 pwys o Llyn Garnage a Glan Gwna. R. C. Jones a D. Jones, Caernarfon: gyda dau yr un o Llyn Engan, pwysau yn amrywio o 5 i 8 pwys.

Yr eog trymaf gan aelod yw eog o 13 pwys i Gwyn Jones, Caernarfon, o ardal Dolgyfnydd, ac eog o 15 pwys wedi ei ddal gan H. Jones, Caernarfon, a oedd yn pysgota gyda thocyn diwrnod.

Rwyf innau eleni yn gallu osgoi'r dosbarthiadau dysgu dal gan fy mod wedi bod yn ffodus i gael un 10 pwys o Llyn Du, Llanrug.

Y gwaith nesaf yw paratoi at y Pwyllgor Blynyddol a gynhelir eleni ar nos Iau, 8 Rhagfyr, yn yr Institiwt, Caernarfon. Caiff Adroddiad y Cadeirydd ei gynnwys yn rhifyn Rhagfyr o'r *Eco*.

HUW PRICE HUGHES

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

MAE Elizabeth Jones, Balaclava, yn dymuno diolch i'w ffrindiau, cymdogion a theulu a hefyd i staff Ysbytai Glan Clwyd a Gwynedd am eu caredigrwydd tra bu dan lawdriniaeth yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Helen Richards, 6 Rhes Efrog, ar gwblhau ras y Great North Run, yn Newcastle (13 milltir) mewn amser swyddogol o 1 awr, 59 munud a 44 eiliad. Roedd Helen yn cael ei noddi y tro yma at Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru ac fe gasglwyd £305 at yr achos da yma.

DYMUNA Nesta Roberts, Baladeulyn, Newton Street, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau a galwadau ffôn ar ei dychweliad o'r ysbyty. Diolch o galon i bawb am eich caredigrwydd.

CÔR LLEISIAU LLIWEDD. Bu'r Côr yn brysur trwy dymor yr haf yn diddanu gwesteion Gwesty'r Victoria, Llanberis.

Nos Iau, 6 Hydref, treuliwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni aelodau Cymdeithas Capel Bwlan, Llandwrog. Hon oedd noson agoriadol y Gymdeithas i weithgareddau'r tymor. Diolch i bawb am y croeso a'r lluniaeth blasus ar ddiwedd y cyngerdd.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y Gymdeithas, nos Fawrth 4 Hydref yn Festri Capel Coch am 7 o'r gloch.

Cafwyd noson o hwyl a chwerthin wrth gystadlu mewn gornest o drin geiriau, dan ofal y Parchedig John Pritchard. Diolch iddo am gamu i'r bwlch ar fyr rybudd.

Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs Iola Evans a pharatowyd y lluniaeth: cacennau blasus gan Mattie, sgonau diguro gan Delyth, a doedd y brechdannau oedd Dilys wedi eu gwneud ddim yn rhy ddrwg chwaith, am wn i!

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas nos Fawrth, 1 Tachwedd, yng nghwmni Mr John Meirion Morris, y Cerflunydd. Byddwn yn mynd i Oriel Conwy erbyn 7.30 o'r gloch yr hwyr i ymweld â'i arddangosfa a chael darlith ganddo. Mae bws wedi ei drefnu a bydd yn cychwyn o Orsaf yr Wyddfa am oddeutu 6.20 o'r gloch ac yn codi ar hyd y pentref fel bo angen. Rhowch wybod ymlaen llaw ple rydych eisiau eich codi (rhag ofn i ni adael rhywun ar ôl!) i Dilys Mai Roberts (01286-871758). Diolch yn fawr.

DYMUNA Meira Pitts, 14 Cae Sarn, Y Groeslon, ddiolch i'w chymdogion, ffrindiau a theulu yn Llanberis am y galwadau ffôn, blodau a chardiau a gafodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

DYMUNA Eifion a Gwyneth, Sŵn y Gwynt, Ffordd Padarn, ddiolch o galoni'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu haelioni a'u dymuniadau da ar achlysur eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Margaret Owen (Mrs O.) gyfleu eu diolch i'w cymdogion a'u cyfeillion am eu datganiad o gydymdeimlad. Trosglwyddwyd y derbyniadau i'r Feddygfa yn Llanberis.

MENTER NEWYDD. Pob dymuniad da i Jason Baylis a Kevin Edwards ar ddechrau busnes newydd yn yr ardal. Bydd y busnes newydd 'Carpedi Glân Eryri' (fel y dengys yr enw) yn ymgymryd â gwaith glanhau carpedi a dodrefn. Rhif cyswllt y fenter newydd yw 0777 563 2312.

DIOLCHIADAU. Dymuna Dilwyn a Lesley Jones, 6 Snowdon Street, Llanberis, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion yn Llanrug a Llanberis am yr anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ar 28 Gorffennaf.

DIOLCH. Hoffai Clifford a Margaret ddatgan eu diolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mrs Elizabeth Owen (Bessie Ynys Wen). Diolch yn fawr i pawb ym Mhlas Garnedd am eu caredigrwydd a'u gofal o Bessie tra bu yno.

Diolch i'r ymgymerwyr am eu trefniadau ar ddiwrnod yr angladd ac i'r Parchedig Donaldson a'r Parchedig G. Williams am y gwasanaeth yn yr eglwys. Hefyd diolch i Mr a Mrs Roberts, Y Bistro, Llanberis, am y lluniaeth.


**Am Offer Tŷ a Gardd...**

**FORMAG**

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: **(01286) 872501**

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED

*Llongyfarchiadau* i Liam Morgan a Glesni Jones ar gael eu hethol yn swyddogion Diogelwch y Ffyrdd.

*Mabolgampau.* Cafwyd diwrnod o hwyl a sbri yn ystod ein diwrnod mabolgampau. Y tŷ buddugol eleni oedd Elidir.

*Cyngor Ysgol.* Yn ystod y flwyddyn casglwyd elw o £120 yn dilyn sefydlu siop ffrwythau gan y cyngor. Bwriedir prynu gemau buarth yn unol â barn y cyngor.

*Tân ar y Comin.* Diwedd y tymor diwethaf cafwyd gwledd o gyngerdd gan ddisgyblion yr ysgol pan berfformiwyd addasiad o nofel T. Llew Jones. Braf iawn oedd cael Mr Robat Humphreys a'i wraig yn ein plith er mwyn dangos ein gwerthfawrogiad iddo am ei wasanaeth i'r ysgol ac i'w gyflwyno ag anrheg ymddeoliad cynnar. Pob lwc i'r dyfodol.

*Darlun Mawr.* Cafodd disgyblion Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 gyfle i ymweld â Chastell Caernarfon ar 10 Hydref fel rhan o gystadleuaeth 'Y Darlun Mawr'. Roedd y disgyblion yn creu darlun oedd yn adlewyrchu cyfnod y tywysogion. Roedd y darluniau yn cael eu gludo ar fodel o gastell. Bydd y plentyn buddugol yn derbyn darlun o'r castell gan arlunydd lleol ar gyfer ei ysgol.

*Ffarwelio.* Daeth cyfnod Carys Hughes o Goleg Menai fel myfyrwraig yn yr ysgol i ben ddiwedd y tymor diwethaf. Dymuna'r ysgol ddiolch o galon i Carys, sydd wedi bod yn ein plith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Pob lwc gyda'r cwrs.

*Profiad.* Yn yr Adran Iau, efo blynyddoedd 5 a 6, mae Joanne Davies, myfyrwraig o Brifysgol Bangor yn cael profiad o ymarfer dysgu. Gobeithiwn y caiff fwynhad o fod yn rhan o'r ysgol hyd at y Nadolig.

*Y Cinio Olaf!!* Yn anffodus, mae Anti Liz yn ymddeol o'i swydd fel cynorthwy-ydd amser cinio ar 21 Hydref. Bydd chwith mawr heb ei gwên a'i hiwmor yn y gegin. Pob lwc.

*Gwasanaeth Nadolig.* Cynhelir ef eleni ar 8 Rhagfyr yn Eglwys Santes Helen.

*Noson Rieni.* Bydd cyfle i rieni ddod i drafod datblygiad a gwaith eu plant ar nos Iau, 10 Tachwedd.

*Adran y Babanod.* Mae'r plant meithrin, Moi, Iestyn a Catrin Elen, wedi setlo'n dda iawn yn ein mysg erbyn hyn. Maent wrth eu boddau yn ein tŷ bach twt newydd ar iard fach yr ysgol.

Croesawn Miss Bethan a Miss Hannah o Goleg Menai yma bob dydd Iau a Gwener i helpu yn nosbarth y babanod.

Buom i gyd ar daith gerdded hydrefol ar ddiwrnod braf yr wythnos ddiwethaf i sylwi ar y dail a hel ffrwythau'r hydref i greu murlun o wiwer.

Daeth Gwenda o'r Archifdy atom ddydd Llun i ddangos hen deganau. Cafodd Magi a Jordan wisgo i fyny fel plant bach erstalwm, a chafodd pawb chwarae gyda'r teganau.

*Cyswllt yr Ysgol â'r Gymuned.* Cawsom gwmni PC Neil Williams (Swyddog Cyswllt Ysgolion) ar ddydd Gwener, 14 Hydref. Bu'n ymweld â phob dosbarth yn ei dro yn cynnig gweithgareddau diddorol a bywiog er mwyn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o safbwnt 'Diogelwch'. Bydd PC Williams yn ymweld â'r ysgol yn dymhorol i gynnig gweithdai gyda'r disgyblion.

*Diolchgarwch.* Fel rhan o'n dathliad Diolchgarwch aeth disgyblion Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 i ganu i Gartref yr Henoed y pentref. Yn ogystal aethant â llu o ffrwythau gyda hwy fel rhodd i breswylwyr y Cartref.

*Trychineb Pakistan.* Pleser oedd cael disgybl o flwyddyn 3, Iori Thorpe, yn dangos ei frwdfrydedd yn casglu arian tuag at ddioddefwyr trychineb y ddaeargryn. Penderfynodd disgyblion yr ysgol y buasent yn hoffi dod i'r ysgol yn gwisgo eu pyjamas, gan dalu dirwy o £1. Yn ogystal daeth y disgyblion i'r ysgol a chynnal Siop Gacennau yn hytrach na Siop Ffrwythau. Casglwyd dros £110 tuag at yr apêl. Diolch i bawb a gyfrannodd.

*Watch Out, Alan Titchmarsh!* Yn dilyn hanner tymor bydd Mrs Rachel Thorpe yn cynnal gweithgareddau amgylcheddol a gwaith maes gyda disgyblion yr ysgol. Bydd cyfle iddynt ailafael ar ddatblygu gardd yr ysgol yn ogystal â chynllunio a datblygu rhannau eraill o dir o fewn yr ysgol. Hefyd yr ydym yn gobeithio tyfu llysiau yn yr ysgol ar gyfer eu gwerthu yn y dyfodol i aelodau'r gymuned. Cymerwn y cyfle yma i ddiolch unwaith eto i Mrs Thorpe ac rydym yn falch o glywed bod ei hiechyd yn gwella. Pob lwc â'r fenter.

*Clwb Plant.* Wel sôn am hwyl! Cynhelir Clwb Plant yn yr ysgol ar gyfer plant y pentref a'r cyffiniau. Mae'r Clwb ar agor yn ddyddiol ar ôl 3 o'r gloch hyd at 5.00 yr hwyr. Cynigir llawer o weithgareddau diddorol gan Arweinydd y Clwb, Rhian White, a'i chynorthwyydd, Anti Diane. Dyma gyfle gwych i rieni gael tawelwch meddwl bod eu plant yn ddiogel ac yn cael eu diddori hyd at 5.00. Mae cyfle i ddisgyblion newydd sydd â diddordeb yn y Clwb gofrestru â Rhian White yn yr ysgol.

YR URDD. Bydd Adran yr Urdd, o hyn ymlaen, yn Adran Ysgol. Dymuna Llywodraethwyr yr Ysgol ddatgan eu diolchgarwch i bawb a fu'n llywio'r Adran Bentref dros y blynyddoedd ac i'r rhai fu'n barod i drefnu gweithgareddau ar gyfer yr aelodau. Pob dymuniad da i'r Adran Ysgol.

CRONFA'R PENSIYNWYR. Enillydd Pêl Bonws Loteri mis Medi oedd Michael Jones, Tyddyn Perthi. Diolchir i bawb a gefnogodd y Noson Bingo ar 20 Hydef.

Cynhelir Ffair Nadolig, nos Wener, **19 Tachwedd** am 6.30 yh. Dydd Sadwrn, 3 Rhagfyr, i gychwyn am 10.30 y bore, bydd bws yn mynd i Fetws-y-coed i gael paned ac yna ymlaen i Borthmadog am Ginio Nadolig yng Ngwesty'r Royal Sportsman. Bydd cyfle i fynd o gwmpas y siopau os dymunwch ar ôl gwledda ac yna cychwyn am adref tua 5 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU i Nia Porter ar ennill Gradd B Nyrsio yng Ngoleg Nyrsio Bangor. Dymunir pob bendith iddi yn ei swydd yn Ward Conwy, Ysbyty Gwynedd. Dymuna Nia ddiolch i bawb am y cardiau a'r dymuniadau da.

GENEDIGAETH Llongyfarchiadau i Steven (gynt o 4 Bryntirion) a Susan ar enedigaeth eu merch fach, Lea. Llongyfarchiadau hefyd i Nain a Taid, sef Wendy a Gwilym, ac i Yncl Vincent.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Carys ac Arwel, Cae Eboni, ar golli ffrind ffyddlon a chariadus, sef yr Henadur Ann Lloyd Jones, Llandrillo yn Rhos.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr oedd: Brian Jones, Perthi; Bronwen Jones, Cae Corniog Bach a Wyn Griffiths, Tai Arthur.

Cofiwch am y **Noson Wasael** gyda phwnsh a mins pei, canu carolau ac eitemau gan blant yr ysgol ac unigolion, nos Iau, **15 Rhagfyr am 6.30 yh.** Dewch i ddathlu'r ŵyl.

APÊL BOSRA. Llongyfarchiadau i Eurgain Haf ar lwyddo i redeg 13 milltir yn Hanner Marathon Caerdydd ar 9 Hydref. Y mae'r arian noddi yn llifo i mewn a gobeithir derbyn y taflenni noddi i gyd erbyn diwedd y mis hwn. Mae'r swm ariannol yn argoeli'n dda iawn. Diolchir i bawb am eu haelioni.



*Eurgain Haf yn Stadiwm y Mileniwm gyda'i medal wedi rhedeg Hanner Marathon Caerdydd dros Gapel Bosra.*

Cynhelir Disgo Nos Wener, **25 Tachwedd** yn y Neuadd Gymuned rhwng **6.30 a 7.30** i'r Babanod ac o **7.30 hyd 8.30** i'r plant hŷn. Tynnir y Raffl Fawr ar y Noson.

EGLWYS SANTES HELEN

DIOLCHGARWCH. Diolch i bawb a fu'n rhan o ddathliad hapus iawn dros drydydd penwythnos mis Hydref eleni. Addurnwyd yr Eglwys yn hardd ar y bore Sadwrn, a chynhaliwyd dau wasanaeth ar y Sul, gyda chynulleidfa dda yn y naill wasanaeth a'r llall. Pregethwr gwadd y cyfarfod yn y prynhawn oedd Archddiacon Bangor, yr Hybarch Meurig Llwyd Williams. Daeth â dau blanhigyn gydag ef i'r eglwys, a soniodd am bwysigrwydd cael amgylchedd briodol a maethlon – nid yn unig i blanhigion ond i'n heneidiau hefyd. Ategai hynny berfformiad plant yr Ysgol Sul, wrth iddyn nhw chwarae gêm 'Dŵr Cymorth Cristnogol' a thynnu sylw at ran allweddol dŵr yn ein bywydau.

Ar y nos Lun cynhaliwyd Ffair Gynhaeaf yn Neuadd yr Eglwys, gyda stondinau poblogaidd a newydd fel 'Yr Olwyn Siocled' yn denu tyrfa dda.

CARNIFAL. Bu'r carnifal a'r llu o weithgareddau atodol a ddaeth yn ei sgil yn llwyddiant mawr eto eleni. Er i'r glaw ar fore Sadwrn y Carnifal orfodi pawb i fynd dan do, cafwyd prynhawn llawn hwyl yn Neuadd yr Ysgol Gymuned, dan ofal Arwel Jones. Daeth Martin Thomas ac Emyr Gibson (Eifs a Meical o'r gyfres deledu *Rownd a Rownd*) atom i wobrwyo'r cystadleuwyr. Diolch i'r rhai a aeth i ysbryd y Carnifal, ac i'r rhai fu'n cynorthwyo ymlaen llaw ac ar y diwrnod.

Ar y nos Lun canlynol llanwyd Neuadd yr Eglwys ar gyfer y Bingo, dan ofal Helen Owen, a bu'r Noson Chwist drannoeth hefyd yn llwyddiant.

Bu mwy na phymtheg o geir yn dilyn cyfarwyddiadau'r Helfa Drysor ar nos Wener, 16 Medi, gyda phryd blasus yn Nhafarn y Prince of Wales, Caernarfon, yn lleoliad cyfleus i orffen noson gymdeithasol werth chweil.

Daeth y gweithgareddau i ben gyda Chwis yn Nhafarn y Glyntwrog ar nos Iau, 23 Hydref, a Disgo i'r plant drannoeth. Bwriedir cynnal y Gymanfa Ganu wedi i do'r eglwys gael ei atgyweirio.



*Caitlin 'Hell's Angels' a William, ei brawd, fel gofodwr. William oedd prif enillydd y cystadlaethau i gyd.*

PLYGU'R ECO. Dymunnir diolch i bawb a ddaeth i blygu'r *Eco* y mis diwethaf a diolch i Ynyr am fynd i'w nôl o'r Wasg. Diolchir i Swyddogion yr Eglwys am gael defnyddio'r Neuadd eto eleni.



*Brenhines y Carnifal, Ceri Ann, a'i gosgordd, Celyth Mai ac Amy Lewis.*

*(Parhad ar dudalen 15)*

# CHWILOTA

## Pen Garddwr Plastirion a Rheilffordd yr Wyddfa

**Ddeufis yn ôl gwneuthum gais am wybodaeth ynglŷn â theulu o Gaeathro a Phontrug. Daeth nifer o ymatebion yn ystod yr wythnosau diwethaf, a bellach, mae'r hanes yn weddol gyflawn am un gangen o'r teulu. Mae'r wraig o Lundain a gollodd pob cysylltiad â'i theulu ym mro'r *Eco* pan fu farw ei mam, bellach wedi cael gwybodaeth am sawl aelod o'i theulu, ac mae mewn cysylltiad ag ail gefnder iddi erbyn hyn.**

Yn ôl cyfrifiad 1901, brodor o Benparcau, ger Aberystwyth oedd Thomas Roberts, ond credir mai Gwyddeles oedd ei fam, ac iddo fyw yn yr Iwerddon am gyfnod. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd wedi priodi â merch o'r enw Esther. Hyd yma, methais â darganfod unrhyw wybodaeth am y wraig hon. Mae'n amlwg i'r teulu sumud nifer o weithiau yn ystod blynyddoedd cyntaf eu bywyd priodasol, oherwydd ganwyd eu plant mewn gwahanol blwyfi yn Arfon: Griffith John yn Llanbeblig, Maggie Esther yn Llanwnda, Esther Lee yn Llanddeiniolen, Tommy a Mary yn Llanllyfni a Bobby a David ym Meddgelert. Erbyn 1901 roedd y teulu yn byw yn Bryngwna Uchaf, Caeathro, a'r tad yn gweithio fel garddwr yn Bodwyn, ger Rhosbach. Roedd Thomas Roberts eisoes yn ŵr gweddw erbyn hyn, gan i Esther farw yn 1899, a'i chladdu ym mynwent y capel.

Pan briododd Thomas Roberts am yr ail waith yn 1905, roedd Sophia Hughes o Gaernarfon yn 35 mlwydd oed. Mae'n debyg mai i Fryngwna Uchaf y daeth hithau i fyw, ond yn fuan wedyn, symudodd y teulu i Glyn Ifor, Pontrug. Adeiladwyd y tŷ hwn o'r newydd yn 1904 gan Syr Hugh Rowlands, Plastirion, yn gartref i'w brif arddwr. Erbyn 1908, pan anwyd Catherine, merch Thomas a Sophia, roedd y teulu wedi cartrefu yn y tŷ newydd hwn ar ymyl Dreif Plastirion. Yn ystod y blynyddoedd hyn roedd Syr Hugh Rowlands wrthi'n gwneud llawer o welliannau i'w stâd, a bu Thomas Roberts, fel pen garddwr y plas, yn gyfrifol am y gerddi a'r lawntiau.

Dyma gyfnod hefyd pan gychwynnwyd ymgyrch i adnewyddu hen eglwys blwyfol Llanrug, ac yr oedd Syr Hugh Rowlands yn un o'r prif noddwyr ynglŷn â'r gwaith.

Roedd y rheithor, y Parch Hugh Williams yn ffotograffydd ac yn hyrwyddwr dosbarthiadau nos i bobl ifanc yr ardal. Cofnodwyd llawer o'i luniau yn y gyfrol *Rural Welsh Parishes*; cyfrol sydd bellach yn eithaf prin ac yn hawlio pris go dda mewn siopau llyfrau ail-law. Mae'n ddiddorol nodi fod Thomas Roberts yn athro garddwriaeth yn nosbarth-iadau'r aelodau eglwysig ifanc.


Er fod Syr Hugh Rowlands wrthi'n brysur yn ystod y blynyddoedd hyn yn gwella Stâd Plastirion, doedd ei iechyd ddim yn dda, ac yr oedd i golli ei unig fab yn ystod Rhyfel De Affrica. Roedd ei unig ferch hefyd gyda phroblemau priodasol a threuliai ei genethod, Marjorie a Miriam Hume, lawer o amser yng nghartref eu nain a thaid ym Mhlastirion.

Wedi marwolaeth Syr Hugh a Lady Rowlands, ac ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, penderfynwyd gwerthu'r stâd. Wythnos union cyn yr arwerthiant bu farw ail wraig Thomas Roberts. Claddwyd Sophia Roberts gyda'i rhieni ym mynwent Llanbeblig. Mae'n ddiddorol nodi fod yr un dyfyniad ar garreg fedd Sophia ac ar fedd Esther yng Nghaeathro: *'Resigned and faithful to religion true; give praise to her who made one talent two.'*

Mae'n ymddangos fod Thomas Roberts wedi gadael Glyn Ifor yn fuan wedi hyn (nid yw'n ymddangos ar gofrestr etholwyr Llanrug yn 1920) a chael gwaith fel pen garddwr cwmni Rheilffordd yr Wyddfa yn Llanberis. Ar yr olwg gyntaf mae'n ymddangos yn swydd od iawn, ond rhaid cofio mai yn ystod y 1920'au roedd y Cwmni Rheilffordd yn berchennog ar Westy'r Fictoria, ac felly, Thomas Roberts oedd yn gyfrifol am holl dir a gerddi'r gwesty.



*Teulu Glyn Ifor, Pontrug. Thomas Roberts a'i wraig, Sophia, gyda'u plant, Catherine, a'r ddau frawd y tybir mai David a Teddie oedd ei henwau.*



*Gerddi Plastirion tua 1907. Efallai mai Thomas Roberts yw'r garddwr yn y llun.*

Rhywbryd yn ystod ei gyfnod yn Llanberis, priododd am y drydedd waith, ac erbyn 1929 roedd Thomas a Rosina Roberts yn byw yn 4 Llainwen Isaf, Llanberis. Yno y parhaodd hyd ei farwolaeth yn 1936. Fe'i claddwyd gyda'i wraig gyntaf ym mynwent Capel Caeathro.

Roedd mab iddo, Ivor, hefyd yn byw yn Llainwen, ac o fewn ychydig flynyddoedd fe'i lladdwyd mewn damwain yng ngwaith ffrwydron Chwarel Glynrhonwy yng Ngorffennaf 1944.

Yn ychwanegol i enwau aelodau'r teulu yn angladdau Thomas Roberts ac Ivor, y mab, mae'r enwau Mrs Murray a Mrs Lindsay, Llundain. Dyma'r ddwy chwaer, Miriam a Marjorie, sef wyresau yr hen Syr Hugh Rowlands, a dreuliodd gymaint o'u plentyndod ym Mhlastirion yn chwarae yn y gerddi y gofalai Thomas Roberts amdanynt. Yn wir, ysgrifennodd Miriam Murray deyrnged i Ivor, a gyhoeddwyd yn y wasg leol yn dilyn ei farwolaeth. Roedd hi erbyn hyn yn byw yn Llainwen Isaf gyda gweddw Thomas Roberts. Bu'n weithgar iawn yn cynnal nosweithiau adloniadol i filwyr oedd yn aros yng nghyffiniau Llanberis ar ymarferion yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Priododd Rosina, gweddw Thomas Roberts, â John Hughes, ac y mae'r ddau wedi eu claddu ym mynwent Nant Peris. Mae'r arysgrif *'Er cof oddi wrth Barti Eilian'* ar y garreg. Pam tybed? Yn yr un bedd hefyd y claddwyd Miriam Violet Christie Murray, a fu farw yn 1969 yn 77 oed. Bu ei chwaer, Marjorie, ar ôl treulio oes o actio mewn gwahanol theatrau a ffilmiau, farw yn Llundain yn 1976.

I drigolion Llainwen Isaf yn ystod y 1930'au, adnabyddid Thomas Roberts fel 'Robaitsh', a'i wraig fel 'Anti Rosie'. Roedd eu gardd yn werth ei gweld – un o'r ychydig erddi oedd yn denu cynnyrch o dir mor greigiog.

Ond mae dau gwestiwn yn parhau heb eu hateb – hyd yma. Pam y daeth Miriam Christie Murray i fyw i Lainwen Isaf i gartref cyn pen arddwr ei thaid? Pam y claddwyd hi gyda gweddw'r hen arddwr?

Methais â darganfod unrhyw wybodaeth am ei gŵr, ond yr oedd ganddi o leiaf dri o blant, sef David, Daisy a Violet. (Enwyd Violet ar ôl ei nain, sef unig ferch Syr Hugh Rowlands).

Mae un cysylltiad arall â Llanberis. Roedd brawd hynaf Syr Hugh Rowlands, John Rowlands, yn gyfreithiwr yng Nghaer, yn briod gyda Charlotte ac yn dad i ddau o blant, mab a merch. Bu farw'r mab yn Durban, De Affrica, yn dilyn cyfnod o salwch ar ôl ymladd yn rhyfel y Boer. Yn 1898, roedd ei fam a'i chwaer (nid wyf wedi darganfod ei henw) yn byw yn Mount Pleasant, Llanberis. Pwy oedd Mrs Rowlands a'r ferch?

Rwy'n ddiolchgar i nifer o'r darllenwyr am gysylltu ynglŷn â'r hanes uchod, yn enwedig i Mrs Mair Roberts, Llanwnda (a fu'n holi rhai o'i chyfoedion yn Llainwen Isaf yn ystod y 1930'au), Mrs Mair Varney a Mrs Naomi Griffith, Llanrug, y ddwy yn cofio merch Thomas Roberts yn byw yn Llanrug a'i chysylltiadau â Llundain, ac i Mr Griffith A. Jones, Caernarfon, un o wyrion Thomas Roberts, sy'n cofio ymweld â'r hen gartref yng Nghaeathro a Phontrug gyda'i fam pan yn blentyn.

Cefais hefyd wybodaeth gan Mr Aled Jones, Bryn Gof, Caeathro (gynt o'r Lodge, Plastirion) yn nodi mai adeiladau Plastirion a ddangosir yn y lluniau o Catherine Hughes Roberts a ymddangosodd yn yr *Eco* ddeufis yn ôl. Deg oed oedd Catherine pan fu farw ei mam (Sophia) yn 1918, ac yr oedd ei thad wedi symud o Blastirion erbyn 1920. Eto'i gyd, mae'r lluniau yn dangos merch ifanc sy'n dipyn hŷn na deuddeg oed. Pa reswm oedd gan Catherine i ddychwelyd i Blastirion yn ferch ifanc mewn ceffyl a thrap?

*(Parhad ar dudalen 14)*

# O SIAMBAR SELWYN

**'Dwi ishio holides!' Dwi'n ysu am gael codi pac a mynd unwaith eto i Cala Bona ar Ynys Majorca, i wneud dim ond diogi a darllen. Dwi ddim wedi cael cyfle i fynd cymaint eleni oherwydd galwadau eraill. Dim hyd yn oed am y 'brêcs' wythnosol i fyny i'r Alban neu i lawr i Ddyfnaint a Chernyw ac Ynys Wyth gyda'r cwmnïau lleol.**

Rwy'n hiraethu am y mordeithiau i fyny arfordir Norwy tua'r North Cape ac i Wlad yr Iâ – Sbitsbergen, ac i fyny arfordir gorllewinol Greenland, at le sy'n dwyn yr enw Disco Bay. Mi fydd hi'n amhosibl ymweld â'r mannau hyn am y tair blynedd nesa' 'ma, gan mai dim ond yn ystod misoedd yr haf y mae'r llongau pleser yn gallu mentro mor agos at Begwn y Gogledd.

* * *

Mi fuo mis Hydref yn fis prysur. Dechrau trwy gael gwahoddiad i Gymdeithas Gymraeg yr Wyddgrug a'r Cylch, a chael noson hynod o ddifyr yng nghwmni'r aelodau. Roedd hi'n digwydd bod y noson pan ddaeth y newyddion da fod y Cynghorau Sir wedi cytuno i gyd-gyfrannu at sicrhau sylfaen ariannol i'r Brifwyl ac, yn naturiol, roedd yr aelodau yn hynod falch, gan fod posibilrwydd cry' bellach mai ar dir Cymru, yn Sir y Fflint o bosib, y cynhelir Prifwyl 2007.

Ar nos Sul cyntaf mis Hydref fe gynhaliwyd cyfarfod arbennig yn Galeri Caernarfon i goffáu Katie Wyn. Fel y gŵyr pawb sy'n ymddiddori yn y 'pethe', fe grwydrodd hi i bob eisteddfod bron yng Nghymru i gystadlu ar ganu emyn. Enillodd gannoedd o wobrau mewn eisteddfodau bach a mawr. Ennill, bob amser yn wylaidd a cholli, yn achlysurol, a hynny yn anrhydeddus. Mi ges i a Myra ei chwmni sawl tro mewn llawer eisteddfod. Mi fyddai hi'n hoff iawn o gynnig ar y llinell goll, ac mi ges i'r cyfle i roi gwobr iddi fwy nag unwaith. A mawr oedd yr hwyl.

Cafodd gyngerdd coffa arbennig. Diolch i'r Parchedig Tegid Roberts am ei drefnu. Hyfryd oedd gweld nifer o gyn-ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn cymryd rhan: Huw Llywelyn Jones o Fethel, sydd eisoes wedi gwneud enw iddo'i hun ym myd yr opera; Siân Wyn Gibson, yn enedigol o Ddeiniolen, a hithau hefyd wedi llwyddo yn y byd operatig ac yn enw adnabyddus. Ac, wrth gwrs, pwy well i gyfeilio i'r cantorion hyn nag Annette Bryn Parri, un sydd wedi cyfeilio i gantorion enwoca'r byd. Hyfryd oedd cael ymfalchïo fod y talentau arbennig hyn i gyd yn dod o Fro'r Eco. Noson i'w chofio oedd y noson i gofio Katie Wyn.

Dyma englyn y Cofiadur, Y Prifardd John Gwilym Jones, iddi:

Katie Wyn

Ei henaid roddai anwes – yn y gân,
a'i gwedd fel angyles,
a doi swynol rasol wres
i'w hemynau o'i mynwes.

* * *

Dau gyhoeddiad dros bont Menai ddechrau'r mis. Un gyda Chymdeithas Lenyddol Bro Menai yn Hen Ysgol David Hughes, Biwmaris, a'r noson ddilynol hefo Cymdeithas Lenyddol Horeb, Brynsiencyn. Mae'n bleser cael ymweld â chymdeithasau fel hyn a threulio noson hwyliog yn trafod pethau fel 'Y busnas cystadlu 'ma' neu sôn am 'Cymeriadau' a chael sgwrs a phaned ar y diwedd.

Gwaith cartref fydd hi am y gweddill o'r mis gan fod cyfansoddiadau Eisteddfod Gwaun Gynfi yn bentwr ar fy nesg i. Mi fydda i'n cael gwahoddiad i'r eisteddfod hon bron yn rheolaidd bob pum mlynedd. Yn ôl y llyfr sydd gen i yn cofnodi yr eisteddfodau y bûm ynddyn nhw, mi fûm i'n beirniadu yn *Eisteddfod Cefn-y-Waun* yn Hydref 1974. Yn Tachwedd 1982 y gwela i *Eisteddfod Gwaun Gynfi* am y tro cynta ynddo fo. Dyma'r unig eisteddfod ym Mro'r Eco sy'n aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru, sy'n cynnwys tua 120 o eisteddfodau. Fe awgrymwn i i bob eisteddfod (dim ots pa mor lleol ydi hi) i ymaelodi â'r Gymdeithas. Cysylltwch â threfnydd y gogledd – Trystan Lewis (01492-592908). Bydd ymaelodi yn sicr o fod yn fanteisiol i chwi wrth drefnu eich eisteddfod.

Mae yna 117 o blant wedi cystadlu yn Adran Lenyddol Eisteddfod Gwaun Gynfi y tro hwn a thros 60 o oedolion. Gobeithio y bydd 'na nifer dda yn cystadlu ar y llwyfan hefyd. Mae Medal Lenyddol yr Ifanc eleni yn cael ei rhoi er cof am y ddiweddar Jean Parc Jones, a fu mor weithgar gyda'r eisteddfod am flynyddoedd.

Dwi'n derbyn gwahoddiad gan amryw o eisteddfodau i ymweld â nhw. Rhai wedi cael eu camarwain gan y datganiad yn y *Daily Post* rai wythnosau yn ôl, sef fy mod i am ymweld â phob eisteddfod yng Nghymru yn ystod fy nhair blynedd fel Archdderwydd! Wrth gwrs, mi fyddai hynny'n gwbwl amhosibl. Na, yr hyn a addewais oedd ceiso ymweld â phob eisteddfod yn nalgylch Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau, a Môn.

Dwi eisoes wedi ymweld â rhai ac mi fydda i'n ymweld fel beirniad â rhai hefyd, ond fe wna i bob ymdrech i ymweld â phob un yn ystod y tair blynedd, a diolch i bawb sydd wedi anfon gwahoddiad swyddogol i mi, gan gynnwys eich Rhestr Testunau. Dwi wedi casglu testunau eisteddfodau lleol ers blynyddoedd, ac mae gen i dros fil ohonynt bellach. Dydi pawb ddim yn gwirioni'r un fath, fel y dywedodd y Dic hwnnw o Aberdaron.

Ond, fel y dywedais i ar y dechrau, dwi ishio holides. Dyna pam y gwrthodais i bob gwahoddiad i fynd i unman yn ystod mis Tachwedd – dim ond i Cala Bona i ddiogi. I'r un gwesty yr ydw i wedi mynd iddo ddwy waith y flwyddyn yn rheolaidd am yr wyth mlynedd diwethaf 'ma. Diogi, darlleb a drachtio gwin coch.

Ydw, dwi ishio holides. Ac os bydd drws y Siambar 'ma ar gau ddiwedd Tachwedd – fe wyddoch y rheswm pam!


Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch CAR. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava
MOT
website: www.a-v-w.co.uk
Shell HELIX
Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car
AVW
YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

Silver STAR
GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

## CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

LLONGYFARCHIADAU i Meirion, Elidir View, Bwlch, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed, hefyd i Keith, Bryn, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd Gŵyl y Diolchgarwch ddydd Sul, 16 Hydref, gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu.

DIOLCH. Dymuna Hilda ddiolch i'w theulu, ffrindiau a phlant yr ysgol am y cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol Gymuned nos Lun, 3 Hydref, am 7.00 o'r gloch. Croesawodd Dorothy bawb i'r cyfarfod a dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Mrs Menna Roberts. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd y mis diwethaf a thrafodwyd rhai materion. Croesawyd y wraig wadd, Ms Anna Chambley, gan Dorothy a chafwyd sgwrs ganddi am ei gwaith yn Adran Bangor o 'Cymorth i Ferched'.

Y gwesteion oedd Marjorie a Gwen. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Kathleen. Diolchodd Joyce i Anna ac i'r gwesteion. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

EGLWYS SANT GABREAL. Cynhaliwyd yr Ŵyl Ddiolchgarwch ddydd Sul, 9 Hydref.

Bore Sul: Boreol Weddi gan Dr William Munro ac yn yr hwyr, am 6.00 o'r gloch gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ein Hesgob, y Gwir Barchedig Anthony Crockett. Yr organydd yn y ddau wasanaeth oedd Dr William Munro. Y darllenwyr yn y bore oedd Miss Meira Williams a Mrs Gwyneth Roberts ac yn yr hwyr, Mrs Hilda Orritt a Mrs Valerie Kressman.

Diolch o galon i bwb fu'n gwasanaethu dros yr Ŵyl. Cefnogaeth dda iawn yn y ddau wasanaeth.

Dymuna'r Wardeniaid ddiolch i bawb am addurno'r Eglwys mor hardd ac am y rhoddion o lysiau a ffrwythau a'r blodau hardd dros yr ŵyl.

NOSON BINGO. Nos Lun, 10 Hydref cynhelir Noson Bingo yn yr Ysgol Gymuned. Diolch am y rhoddion ariannol ac am y rhoddion at y raffl a'r gwobrau. Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth. Bydd yn noson ardderchog, yr elw at Elgwys Sant Gabreal.

Enillwyr y Raffl Fawr oedd:
£50: Siop Mankind, Caernarfon; £30: Miss Williams, 9 Cefn Elan, Llanrug; £20: Mrs Susan Roberts, 5 Tan y Cae, Bethel; Tocyn Petrol: Mrs Palmer, 43 Lôn Ogwen, Bangor; Dillad Gwely: Mrs Peggy Rowlands, 3 Maes Gerddi, Cwm-y-glo; Bocs Nwyddau: Damien, Penrallt, Caernarfon; Bocs Llysiau: Sally, Brodawel, Cwm-y-glo; Hamper Brecwast: Dee, Groelson, Cwm-y-glo; Bocs Nwyddau: Mrs Morgan, 7 Tan y Cae, Bethel; Tin Bisgedi: Alison Bowen, Bryn Gwna, Caeathro; Set o Sosbeni: Mrs Roberts, Penrhos Villa, Bethel; Gwin: Mr Leslie Orritt, Moranedd, Cwm-y-glo; Bocs Nwyddau: Mrs Graham, 1 Minffordd, Bethel; Bocs Llysiau: Mr Karl Woods, 43 Pentre Helen, Deiniolen; Siocledi Roses: Siop Mankind, Caernarfon; Tegan Meddal: Siôn Hughes, 16 Dôl Afon, Cwm-y-glo; Ffrâm: Mrs Jean Roberts, 5 Dôl Elidir, Llanberis; Bocs Nwyddau: Mrs E. Griffiths, 6 Turner Street, Llanberis; Bocs Ffrwythau: Nicola Thomas, Gwylfa, Cwm-y-glo; Gwin: Carol Pursglove, Caernarfon; Bocs Siocled: Mrs Humphreys, 6 Bro Rhythallt, Llanrug; Mygiau Tsieni: Mrs Dilys Evans, Min-y-don, Brynrefail; Bocs Ffrwythau: Mrs Eira Langford, Ashley House, Cwm-y-glo; Doli wedi'i gwau: Mrs Mackray, (871048); Bocs Llysiau: Siop Sglodion Every-day, Caernarfon); Bocs Nwyddau: Mrs Malony, 9A Bro Rhythallt, Llanrug; Bocs Ffrwythau: Mr L. Williams, 93 Cae Mur, Caernarfon; Bocs Nwyddau: Mrs Eira Langford, Cwm-y-glo; Tin Bisgedi: Mrs Bet Jones, 49 Maes Padarn, Llanberis; Potel o ddiod: Mrs Ceri Salisbury, (Siop Caprice), Caernarfon; Siocledi *After Eight*: Rhian Pursglove, Caernarfon.

Enillydd y cardiau tîm pêl-droed: Mrs Avril Jones a Mrs Dorothy Jones: y ddwy o Gwm-y-glo.

Enillydd y raffl ar y noson oedd Miss Anest Jones, Glan-y-don, Cwm-y-glo.

Enillydd dyddiad pen-blwydd y ddoli oedd Mrs Katie Gruffydd, 23 Maes Padarn, Llanberis.

Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth.

## NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

LLONGYFARCHIADAU a diolch i'r rhai sydd yn gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant 'Gŵyl Ffair Nant'. Bu'r tywydd yn ffafriol eto eleni a chafwyd llu o ymwelwyr i Eglwys fach y Nant i weld y blodau a'r gwaith llaw. Bu'r cystadlu yn frwd a'r safon yn arbennig.

Diolch i bawb a gymerodd ran – y trefnwyr, yr ymgeiswyr a'r rhai a ddaeth i 'weld'.

Oes, mae llawer o dalent yn yr ardal a da o beth yw cael y fraint o'i arddangos fel hyn.

CLWB CANT EGLWYS ST PERIS Mis Medi. £25: Miss Helen Roberts; £10: Mrs Sara Stacey; £5: Miss Joyce Foulkes.

FFAIR NADOLIG YR EGLWYS: Cynhelir Ffair Nadolig yn Ty'n Llan ar ddydd Mercher, 23 Tachwedd. Bydd mins pei, paned a thocyn raffl ar gael am £1.50! Dewch yn llu am anrhegion Nadolig unigryw!

DYMUNA Mrs Prydwen Pritchard, Llys Awel, ddiolch o galon i'w ffrindiau, teulu – a'r plant yn enwedig – am ben-blwydd arbennig a chofiadwy iawn yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.




## Bob yn 80 eleni

Meddwl y basa chi'n hoffi clywed sôn am Bob Thomas, Nant y Glyn, yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed eleni. Ei anrheg oedd trip i Madrid i weld gogoneddau'r ddinas, a oedd yn cynnwys mynd i weld Beckham a'i griw yn y Bernabeau. Dwi'n siŵr fod profiad cyn-gadeirydd clwb pêl-droed pentre Llanrug wedi rhoi hwb i Real wrth ennill 4–0 yn erbyn Mallorca. Dyma lun ohono hefo Arwyn a Rheon, ei feibion, ar ôl y gêm.


Fe gafodd Bob hedfan am y tro cyntaf ers iddo adael yr awyrlu yn 1945, ac roedd hi'n llawer cynhesach na'r tro diwethaf. Roedd pethau'n eitha poeth ym Madrid hefyd, ond fe gafodd lawer o fwynhad yng nghwmni Eirian (merch o Drelech ger Caerfryddin) a'i gŵr, Nico, a'i hebryngodd o amgylch y ddinas. Profiad bythgofiadwy, ac mae eisoes wedi cael gwahoddiad yn ôl ar ei ben-blwydd yn 90.

**CARPEDI GERAINT OWEN**

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:
**Swyddfa Etholaeth**
**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**

neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YSGOL GYNRADD
*Llongyfarchiadau.* Dymunwn longyfarch ein Pennaeth Babanod, Mrs Heulwen Evans, a'i phriod, Deiniol, ar ddathlu eu Priodas Arian yn ystod mis Hydref.

Estynnwn ein llongyfarchiadau i Eleri Jenkins a Steve Edwards ar enedigaeth eu mab bychan,. Owain Lewis. Rydym yn edrych ymlaen i'ch gweld yn galw heibio'r ysgol pan gewch ddiwrnod braf.

*Casgliad Diolchgarwch.* Daeth Mr Dennis Davies i'r ysgol i sgwrsio gyda'r plant am waith y Gymdeithas Atal Creulondeb i Blant. Gosodwyd gwaith lliwio a dysgu i'r plant, gan ofyn yn garedig i chi, rieni a theulu, noddi'r plant am eu gwaith a chyfrannu arian at waith y Gymdeithas NSPCC, a fydd yn derbyn ein casgliad Diolchgarwch eleni.

*Rhedeg Dros yr Ysgol.* Mae Mr Robin Halliday wedi gwirfoddoli i redeg ym Marathon Eryri yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 2005, sydd i'w chynnal ddydd Sul, 30 Hydref, fel rhan o ymgyrch codi arian Cymdeithas Rieni yr ysgol. Rydym eisoes wedi rhannu ffurflenni noddi i bob cartref. Gofynnwn yn garedig ichi ei gefnogi.

*Talebau Tesco.* Rydym hefyd yn casglu talebau chwaraeon Tesco, ac yn ddiolchgar iawn i bob teulu sydd yn siopa yno ac yn cyflwyno eu talebau i'r ysgol.

*Gwersi Gofal ar y Ffordd.* Mae Mrs Mai Jones o Uned Gwasanaeth Kerb Craft wedi dychwelyd atom eto eleni ac mae, gyda'r rhieni sydd wedi gwirfoddoli i'w helpu, yn hyfforddi disgyblion Bl.1 i gymryd gofal ar y ffordd.

*Ymarferion Campau'r Ddraig.* Mae amryw o'r disgyblion Cynradd yn aros ar ôl yr ysgol bob nos Fercher ar gyfer ymarfer sgiliau chwaraeon, o dan ofal Miss Jones a Mr Griffith.

*Ymarfer Dawnsio'r Ddawns Flodau.* Eleni eto mae genethod Bl.2 yn cael cyfle i berfformio y Ddawns Flodau yn seremoni Cyflwyno'r Tlysau yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail a'r Eisteddfod Bentref. Maent wrthi'n brysur yn ymarfer gyda Mrs Heulwen Evans. Dymunwn yn dda iddynt yn y seremonïau.

*Ysgol y Mudiad Meithrin.* Bydd disgyblion bach y Mudiad Meithrin yn symud o'r Caban i adeilad yr ysgol yn fuan iawn. Estynnwn groeso cynnes iddynt a'u hyfforddwyr.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 am fis Hydref oedd: £20: Mrs M. Jones, Dwyros; £7: Mr I. Williams, Disgwylfa; £5: Mrs R. Evans, 24 Nant y Glyn.

DIOLCHIADAU. Dymuna Dilwyn a Lesley Jones, 6 Snowdon Street, Llanberis, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion yn Llanrug a Llanberis am yr anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas ar 28 Gorffennaf.

PROFEDIGAETH. Bu farw Allan, mab annwyl iawn Gwilym a Miriam Davies, 2 Minffordd, yn sydyn ac annisgwyl. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant iawn â hwy a hefyd i Kevin a Siân a'u teuluoedd, a'r teulu oll yn eu profedigaeth enfawr.

PROFEDIGAETH. Ar ôl gwaeledd hir a brwnt, bu farw Gordon Lewis, Fron Helyg, Lôn Groes, gŵr annwyl Hannah a thad Sharon, Carys a Kevin. Bydd yn golled fawr iddynt ac i'r wyrion a'r wyresau. Cydymdeimlwn hefyd â'i fam, Mrs Maggie Lewis, a'i frodyr a'i chwiorydd a'r teulu oll.

PLAID CYMRU. Daeth y Cynghorydd John Wyn Williams, sy'n cynrychioli Ward Pentir ar Gyngor Gwynedd, i siarad â Changen Llanrug nos Fercher, 19 Hydref, a chafwyd sgwrs ddifyr ganddo ar y newid arfaethedig yn ffiniau etholaeth Arfon a sefyllfa'r Blaid yn etholaeth Conwy. Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda changhennau Bangor a Dyffryn Ogwen yn y dyfodol.

Gwnaed trefniadau at y Noson Goffi a gynhelir nos Fercher, 16 Tachwedd, yn y Sefydliad Coffa. Bydd yno stondinau a rafflau ac edrychwn ymlaen at noson o sgwrsio a chymdeithasu. I gyfrannu nwyddau i'w gwerthu, arian at yr achos, neu help gyda'r coffi neu'r stondinau, ffoniwch Phyllis (870237), Vera (674878), Meirwen (675359) neu Llinos (674478).

Croeso cynnes iawn i bawb i Sefydliad Coffa Llanrug am 7 o'r gloch.

DIOLCH. Dymuna Joan Rees Williams, Y Gors, Pontrhythallt, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i chyfeillion am y cardiau a'r galwadau teliffon a dderbyniodd yn ddiweddar ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

DYMUNA Joan Rees Williams a'r teulu oll ddiolch o galon i bawb am eu cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur marwolaeth ei chwaer, Enid Rees Clack (Edwards gynt, o Fron Eilian, Dinorwig), yn 81 mlwydd oed.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Llanrug ar nos Fawrth, 11 Hydref yn y Ganolfan Gymunedol. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Bethanne, y Llywydd, a chyhoeddodd y digwyddiadau canlynol: Cwis Hwyl Cenedlaethol ar nos Wener, 11 Tachwedd yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd; Ysgol Undydd i Ddysgwyr yn Ysgol Maesincla ar ddydd Sadwrn, 12 Tachwedd; Gweithdy Gwaith Papur yn Neuadd Tregarth ar ddydd Sadwrn, 19 Tachwedd a chinio Nadolig y gangen yn y Country Manor ar 13 Rhagfyr.

Y gŵr gwadd oedd Mici Plwm a adroddodd nifer o straeon digri, ynghyd ag ambell un ddifrifol, amdano'i hun a'r rhain i gyd yn dod i'w gof wrth iddo dynnu allan amrywiol drugareddau o'i gist drysor. Bu'n blentyn direidus dros ben yn Llan Ffestiniog, yn dwyn afalau, torri ffenestri a chwarae *knock doors*. Bedyddiwyd ef â'r llysenw 'Plwm' yn ei laslencyndod. Gallai olrhain ei achau yn ôl at Ann Griffiths, yr emynyddes. Bu ar fordaith gyda nifer o bobl anabl ar y Soren Larsen a bu yn yr India gyda John Pierce Jones, ar Enlli gyda Gwynn ap Gwilym a bu'n dilyn llwybr yr Afon Nîl mewn balŵn aer poeth. Gwelodd erchyllterau hefyd, megis *toy bombs* ym Mhacistan.

Paratowyd y baned gan Nan, Meryl a Julie ac enillwyd y raffl gan Margaret Jones.

Lorraine Scott fydd gwestai'r cyfarfod nesaf a gynhelir ar nos Fawrth, 8 Tachwedd, a'i thestun fydd colur 'Virgin Vie'.

## Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 18 Hydref yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Cadeiriwyd gan y Cyngh. Arwel Thomas a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Medi. Cyflwynwyd y fantolen ariannol gan y Cyngh. Goronwy Hughes a diolchwyd iddo am ei waith.

**Ceisiadau Cynllunio** – Roedd tri chais gerbron ac nid oedd gwrthwynebiad iddynt, er y mynegwyd pryder fod lleoliad y tŷ y bwriedir ei adeiladu ar Fferm Prysgol braidd ymhell o'r ffermdy presennol.

**Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd** – Yn ein cyfarfod diwethaf, cyflwynwyd dogfen swmpus gydag addasiadau i'r ddogfen ddrafft wreiddiol. Paratowyd sylwadau gan y Cyngh. Dafydd Whiteside Thomas gan nodi nifer o newidiadau arwyddocaol oedd wedi eu gwneud i'r ddogfen wreiddiol. Diolchwyd iddo am wneud y gwaith ar ran y Cyngor Cymuned a bydd ei sylwadau yn cael eu hanfon ymlaen i Gyngor Gwynedd. Mae copi o'r ddogfen ymhob llyfrgell gyhoeddus os oes unrhyw un â diddordeb.

**Adran Priffyrdd** – Darllenwyd llythyr o'r adran hon yn cytuno fod gôr-yrru ar Ffordd Bryngwyn drwy Tan y Coed. Mae'r heddlu yn cadw llygaid ar y broblem. Hefyd mae'r adran am ailbeintio'r arwyddion o gwmpas croesffordd Glan Moelyn a'r Efail. Nid yw'n bosib cael tawelyddion i arafu'r traffig yn yr un o'r lleoliadau gan nad oes tai bob ochr i'r ffordd, nac ysgol yn y cyffiniau. Pasiwyd ein bod yn ailgysylltu â'r adran oherwydd ein pryderon.

**Biniau pwrpasol** – Yn dilyn y broblem o gŵn yn maeddu hyd y strydoedd ac yn ymyl y caeau chwarae, byddwn yn archebu biniau pwrpasol ar gyfer baw cŵn. Bydd y rhain yn cael eu gosod o gwmpas Llanrug, Cwm y Glo, Tan y Coed a Cheunant a bydd Cyngor Gwynedd yn eu gwagio yn ôl yr angen.

**Cwm y Glo** – Daeth nifer o faterion i law yn mynegi pryderon y pentrefwyr. Nid yw'r bysys yn trafeilio'n gyson drwy'r pentref, sy'n golygu fod y teithwyr yn gorfod cerdded i'r briffordd i ddal y bws. Mae hyn yn deillio o'r broblem fod ceir yn parcio bob ochr i'r ffordd yn y pentref sy'n ei gwneud yn amhosib i'r bysys fynd rhyngddynt.

Daeth i sylw hefyd y byddai problem enbyd petai angen i'r gwasanaethau brys gyrraedd rhai mannau yn y pentref – oherwydd y parcio a hefyd y lonydd culion, fel y ffordd heibio i'r eglwys a'r hen Gapel Mawr. Mae'r problemau hyn eisoes wedi cael eu cyfeirio at y Cyngor ond hyd yn hyn does dim wedi ei wneud. Bydd y cwynion yn cael eu hanfon iddynt eto gan ofyn iddynt edrych ar y posibilrwydd o 'Gynllun Stryd'

**Llifogydd** – Yn dilyn y glaw mawr yn ddiweddar, gwelwyd fod lefel y dŵr yn codi'n uwch ac yn gyflymach erbyn hyn ac yn llifo i'r gerddi ar hyd un ochr i Gwm y Glo.

Mae'r un broblem wedi ymddangos hefyd rhwng Pontrhythallt a Stabla. Bydd cais yn cael ei wneud i Asiantaeth yr Amgylchedd lanhau'r afon fel bod y dŵr yn gallu llifo'n rhwyddach a pheidio gorlifo'r glannau.

Mae pryder hefyd ynglŷn â chyflwr y ffens o gwmpas y parc sglefrio ym mhen draw pentref Cwm y Glo ac mae'r safle'n hynod beryglus fel y mae. Bydd cais yn cael ei gyflwyno i Adran y Priffyrdd iddynt osod 'barier' cadarn yno. Bydd bolardiau coed parhaol yn cael eu gosod ar yr hen lôn wrth ymyl y man ail-gylchu fel y gellir rhwystro ceir rhag cael eu gadael yno. Bwriedir gofyn i Gyngor Gwynedd wneud yr un peth yn nau agoriad yr hen ffordd rhwng y Fricsan a Phenllyn rhag ofn i'r 'trafeilwyr' chwilio am safle addas pan fyddant yn gorfod symud o Glynrhonwy.

Cyflwynwyd ceisiadau am nawdd ariannol a rhannwyd fel a ganlyn:

- Seindorf Arian Llanrug: £500;
- Clwb Pêl-droed Cwm y Glo (Rovers): £100;
- Pwyllgor Neuadd Gymunedol Cwm y Glo: £985.56 (sef bil Cyngor Gwynedd);
- Parc Hamdden Y Fawnog Rydd, Nant y Glyn: £200.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ysgol Gymuned Cwm y Glo am 7 o'r gloch, nos Fawrth, 15 Tachwedd 2005

## Y Capel Lle Bu'r Ysgol

Bu tro ar fyd ym mhentref Brynrefail ddechrau mis Medi pryd y symudodd aelodau yr Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn y pentref i addoli yn yr Ystafell Gynhadledd yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri. Fel y mae'n hysbys i'r ardalwyr a llawer cylch ehangach, Ysgol Sir Brynrefail oedd ar y safle rhwng 1900 a 1956. Dros y blynyddoedd, bu cysylltiad agos rhwng y Capel ym Mrynrefail a'r Ysgol Sir. Yn y capel y byddid yn cynnal eisteddfodau a chyfarfodydd cyhoeddus yr ysgol ac yn ystod pedwar a phumdegau y ganrif ddiwethaf lleolwyd dau ddosbarth o'r ysgol yn Festri'r capel. Dyna'r cyfnod pan yr adeiladwyd, gan y Cyngor Addysg, y cyfleuster oedd yn galluogi'r Festri helaeth i gael ei rhannu yn ddwy ystafell yn ystod y dydd a chael defnydd o'r ystafell gyfan i weithgareddau y capel gyda'r nos, a hynny bob nos o'r wythnos o'r bron y cyfnod hwnnw.

Dyma flas o'r cysylltiad agos fu yr amser hynny rhwng yr Ysgol a'r Capel, wedi eu dethol o Gofnodion Pwyllgor Adeiladau Capel Brynrefail:

**Ebrill 1af 1945**
Cais am fenthyg y Capel oddiwrth Lywodraethwyr Ysgol Sir Brynrefail i gynnal gwasanaeth i'r plant am 5 diwrnód yr wythnos. (Caniatawyd ar Fai 13eg)

**Gorffennaf 1af 1945**
Gofynnwyd gan Lywodraethwyr yr Ysgol Sir am fenthyg y Festri i gynnal yr Arholiadau o Orffennaf 3ydd hyd y 18fed. Caniatawyd y cais.

**Rhagfyr 5ed 1945**
Cais oddiwrth yr Ysgol Sir am fenthyg y Capel i gynnal cyngerdd ar 19eg o Ragfyr a hefyd am fenthyg y stage.

**Ebrill 28ain 1946**
Cais gan Mr James am gael peidio talu am fenthyg y Capel gan fod yr elw i gyd i fyned at y newyn yn Europe.

**Awst 25ain 1946**
Darllen llythyr a dderbyniwyd gan y Parch John Pritchard, Llanberis, ynglŷn â'r telerau am y Festri i gynnal dosbarthiadau gan yr Ysgol Ramadegol.

**Chwefror 27ain 1949**
Darllenwyd copi a anfonwyd gan Mr Thomas yr Ysgol Feistr i'r Education yn dweud nad oedd wedi defnyddio y capel at wasanaeth y bore yn ystod y term am fod llawer o'r plant gyda annwyd ac felly roedd yr accountant yn gofyn a oedd eisiau talu am yr adeilad. Pasiwyd nad oeddym am bwyso am dâl.

**Chwefror 12fed 1951**
Cais gan Mr James, Llanberis, am gael defnyddio y capel a'r stage er cynnal Eisteddfod yr Ysgol.

**29ain Hydref 1951**
Cwyn fod ink ar y llawr yn y Festri. Pasio i hysbysu Mr Thomas yr ysgol Feistr.

**Rhagfyr 10fed**
Sicrwydd fod cwyn yr inc wedi cael sylw.

**Chwefror 18ed 1952**
Hysbyswyd i'r Ysgol Ramadeg gael defnyddio'r Capel i gynnal gwasanaeth ar ddydd Claddedigaeth y Brenin.

**Mehefin 22ain, 1952**
Darllenwyd cais oddiwrth brifathro yr Ysgol Ramadeg am fenthyg adeilad y capel ar gyfer y Cyfarfod Gwobrwyo a gynhelir ar Gorffennaf 11eg. Caniatawyd y cais.

**Rhagfyr 15fed 1952**
Caniatawyd cais o'r Ysgol Ramadeg am fenthyg y llestri ar gyfer eu parti blynyddol. Pwyswyd fod cyfrif manwl i'w gadw o nifer y llestri ddychwelid.

Rhaid cofio hefyd fod tair ystafell islaw oedd yn cartrefu Ysgol Babanod y pentref, o 1908 i 1983. Cof byw i lawer o'r plant hynny oedd clywed sŵn byddarol traed disgyblion yr Ysgol Sir yn cyrraedd y Festri uwchben am eu gwersi wedi eu gwasanaeth boreol.

Mae gan sefydliadau addysgol y cylch ddyled fawr i Gapel Brynrefail am roi cartref iddynt dros y blynyddoedd. Da felly yw gweld safle yr hen Ysgol yn rhoi cartref newydd yn awr i'r Achos yn y pentref.

## Lle Bu'r Ysgol Mae'r Capel


Yn gynharach eleni pleidleisiodd aelodau'r Eglwys yn unfrydol i symud i'r Ganolfan oherwydd nad oedd adeiladau'r capel yn addas nag mewn cyflwr ddigon da iddynt barhau i addoli ynddynt. Bu'r pentrefwyr yn addoli yn y Capel, yr unig gapel yn y pentref, o 1873 i 1998 ac yna defnyddiwyd y Festri ar y Suliau hyd Orffennaf 2005.

Collodd pentref Brynrefail yn y gorffennol lawer sefydliad a oedd yn ei wneud yn bentref bywiog a byrlymus ac yn ddiweddar roedd cartref i'r Eglwys yn y pentref yn bur sigledig. Llawenydd erbyn hyn yw datgan fod penderfyniad yr aelodau i fwrw ymlaen yn bositif wedi bod yn gam pwysig yn hanes yr Eglwys, yn arbennig felly gan fod yr aelodau wedi manteisio ar y cyfle i gael aros yn eu cynefin i addoli fel cynulleidfa. Er fod yr awyrgylch yn newydd mae llawer o elfennau materol ac ysbrydol wedi cyfranogi at y cymorth i addoli.


Cafwyd Suliau bendithiol gydol mis Medi ac, yn drawiadol iawn, yn yr Oedfa Ddiolchgarwch ar y Sul cyntaf o Hydref, canwyd emyn adnabyddus y diweddar T. Rowland Hughes 'Tydi a roddaist' am y tro cyntaf, mae'n bur debyg, ar yr union safle lle bu'n astudio fel disgybl.

Mae'r adeilad newydd gwych yn y pentref yn cynnig llawer o gyfleusterau mae'r Eglwys yn gallu manteisio arnynt, ac mae ein diolch i'r Cyfarwyddwyr am bob cydweithrediad yn ystod y misoedd diwethaf.

Lowri Roberts Williams
Gwyn Hefin Jones




*Y Capel fu'n addoldy o 1873 i 1998 a lle cynhelid cyfarfodydd cyhoeddus yr Ysgol Sir.*



*Y festri fu'n ganolbwynt gweithgareddau'r pentref rhwng 1902 a 2005 ac yn gartref i ddosbarthiadau'r Ysgol Sir.*



*Yr aelodau wedi'r oedfa olaf yn y Festri, Gorffennaf 24ain 2005, dan arweiniad y Parch John Owen Bethesda.*



*Y Parch John Owen gyda'r Blaenoriaid.*



*Yr Ystafell Addoli yn y Ganolfan.*

## WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

YMDDIHEURO. Fe hoffwn ymddiheuro i'r wraig sydd wedi gadael neges ar fy ffôn yn gofyn imi gysylltu â hi i roi manylion am rif ffôn Mrs Gwenlli Williams. Yn anffodus nid ydych wedi gadael rhif ffôn na chyfeiriad imi allu cysylltu â chi. Ffoniwch eto gan adael rhif imi allu eich ateb.

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb am fis Medi:£40: Mrs Irene Roberts, Pant Teg; £25: Ms Einir Jones, 20 Ty^ Hen; £10: Mr T.E. Jones, Penrhyn, Lôn Ddewi, Caernarfon.

Enillwyr mis Hydref oedd:

£40: Mrs N. Huws Roberts, Bodrida; £25: Mrs L.J. Williams, Plas Bodhyfryd; £10: Ms Catrin Lowri, 3 Croes y Waun.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Hydref, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, yr aelodau gan ddiolch iddynt am eu cyfraniad tuag at y bwyd i Gystadleuaeth Bowlio'r Ffederasiwn. Daeth Catherine a Hilda Williams, yn ail yn hon. Diolchodd hefyd i'r aelodau a fu'n helpu yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn y Faenol.

Croesawodd y Llywydd Mrs Linda Hughes a Nyrs Nerys o dîm Calon Lân Gwynedd. Eglurodd Linda fod y tîm wedi ei sefydlu ym mis Mai 2002 ac i barhau tan 2007, gyda'r arian yn dod o'r Cynulliad. Maent yn gyfrifol am Ataliad Cyntaf (fel cyngor ar ymborth, ymarfer ac ysmygu) mewn rhannau o Wynedd, Dinbych a Meirionnydd. Mae tair o nyrsys yn rhoi gofal a chyngor i rai sydd wedi cael trawiad ar y galon.

Diolchodd y Llywydd iddynt a chafwyd ymateb da iawn gan yr aelodau. Enillydd y raffl, wedi ei rhoi gan Carys Williams, oedd Pat Parry.

CLWB BOWLIO. Ar 19 Medi cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Clwb Bowlio yn y Ganolfan. Croesawodd Catherine Jones, Yr Ysgrifennydd, Emyr Evans i'r cyfarfod gan ddymuno gwellhad buan iddo. Cafwyd adroddiad ar waith y flwyddyn ynghyd â'r Adroddiad Ariannol gan Catherine.

Mae'r tîm wedi bod yn llwyddiannus yn y gynghrair eto eleni, gan ddod yn gyntaf. Maent yn edrych ymlaen at y tymor nesaf gyda Emyr yn gapten a Kevin Bustrod yn is-gapten. Gan fod y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn dymuno rhoi'r gorau i'w swyddi, etholwyd Dafydd Price yn Gadeirydd a Joe Large yn Ysgrifennydd. Mae croeso cynnes i aelodau newydd.

MERCHED Y WAWR. Nos Iau, 22 Medi, dechreuodd y tymor newydd gyda noson ddifyr dros ben yng ngwhmni Llion Iwan, a roddodd gipolwg i ni ar ei waith diddorol ac anturus yn ffilmio gwahanol anturiaethwyr ledled y byd. Croesawyd Llion gan y Llywydd, Rhian Ellis, a diolchwyd iddo gan Sylvia Prys Jones. Roedd yn braf creosawu aelodau newydd i'n plith. Nos Lun, 26 Medi, cynrychiolwyd y gangen yn y Pwyllgor Rhanbarth yng Nghaernarfon gan Cadi Jones a Beryl Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 3 Tachwedd, pryd y cawn gwmni yr amryddawn Gwyneth Glyn. Sylvia Prys Jones a Marian Jones fydd yn gyfrifol am ddod â'r nwyddau a gweneud y baned ar ddiwedd y noson.

PRIODAS. Yn y Borth, ger Aberystwyth, priodwyd Diane Davies, Dôl Erddi, â Ioan Evans. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol. Mae gwylwyr y rhaglen deledu *Pobol y Cwm*, yn gyfarwydd â Ioan fel y Parchedig Owen, gweinidog Cwm Deri.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Mr Tom Griffith, Ty'n Ronnen, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed. Dathlu cyrraedd ei ddeunaw oed y bu Osian Owen, Stad Tŷ Hen. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Richard Charge, Llifon, adref wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty. Hefyd cymerwyd Alison Evans, Tremallt; Mark Greasky, Stad Pant y Waun; Mrs Alice Hughes, 3 Bryn Golau a Mrs Nans Hughes, Wernas, i'r ysbyty hefyd. Anfonwn ein cofion atoch gan obeithio'n fawr y byddwch yn gwella.

Anfonwn ein cofion hefyd at Sian Thomas, Tŷ 'Sgoldy, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Mary Jones, Llwyn Afon, a'i chwaer, Mrs Margaret Jones, Y Dalar Deg, yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Mr Gordon Lewis, o Lanrug.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mary Evans, 7 Tref Eilian (gynt o Rosgadfan a Deiniolen) ddiolch i'r plant, perthnasau a chymdogion, ymhell ac agos, am yr anrhegion, arian, cardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

ANFON CYFARCHION. Dymunaf i, Katie Roberts, Stad Tref Eilian, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda eleni i bawb o'm teulu a ffrindiau y Nadolig hwn. Yn lle cardiua ac anrhegion, byddaf yn rhoi eu gwerth at ryw achos teilwng.

Diolch i bawb fu'n galw i mewn i'm gweld yn ystod y flwyddyn. Cofion cynnes atoch i gyd.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas yn y Neuadd nos Lun, 10 Hydref. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Pat Parry. Y siaradwraig wadd oedd Mrs Carrie Prys Owen, o'r Waun yn enedigol, ond o Lanrug yn awr. Bu'n sgwrsio am 'Yr Hen Waun'. Diolchwyd iddi gan Mrs Pat Parry. Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan nos Lun, 14 Tachwedd, pryd y bydd y Dr Gwynfryn Pierce Jones yn sgwrsio am 'Chwareli Gwynedd'. Bydd croeso cynnes i bawb ymuno â'r Gymdeithas.

YR URDD. Mae aelodau pwyllgor yr Urdd yn gobeithio cychwyn cyfarfodydd yr Urdd am eleni yn y Ganolfan nos Fercher, 2 Tachwedd. Mae croeso i ddisgyblion Bl 3–6 ymuno â'r adran.

## UN FUNUD FACH

### O BWYS MAWR

Mae ffilm newydd Wallace a Gromit eisoes yn llwyddiant mawr yn yr Unol Daleithiau, ac erbyn hyn mae i'w gweld ym Mhrydain. Ychydig a welais o'r ddau gymeriad clai, er iddynt ennill dau Oscar i'w creawdwr, Nick Park. Rwy'n fwy cyfarwydd â'r cymeriadau a wnaed ganddo ar gyfer hysbysebion y 'Creature Comforts'. Cwmni o'r enw Aardman Animations sy'n gyfrifol am Wallace a Gromit, ac wythnos yn ôl llosgwyd warws y cwmni hwnnw yn ulw. Collwyd y rhan fwyaf o'r modelau a wnaed ar gyfer rhaglenni a ffilmiau'r cwmni. Roedd yn golled enfawr, ac yn siom fawr i Nick Park. Ond roedd ymateb Park i'r golled yn hynod: 'Roedd yn ddeunydd amhrisiadwy ac yn llawn nostalgia. Mae'n newyddion dychrynllyd i'r cwmni, ond o'i gymharu â thrasiediau eraill, nid yw fawr o bwys.'

*'It's not a big deal,'* meddai Park, o gofio bod y tân yn warws ei gwmni yn llosgi drannoeth y ddaeargryn ddychrynllyd a drawodd De Asia. Cafodd Park dalp mawr o waddol celfyddydol ei gwmni, ond mae'n ddigon call i sylweddoli nad yw hynny'n ddim o feddwl am yr hyn a ddigwyddodd ym Mhacistan a'r India. Pan fo daeargryn yn lladd hyd at 40,000 o bobl, mae colli llond warws o fodelau cartŵn yn ymddangos yn ddibwys. Roedd yn gwbl naturiol fod gan Nick Park gryn feddwl o'r modelau. Wedi'r cyfan, gallai dau eiliad o ffilm olygu diwrnod cyfan o waith iddo. Ond roedd ei ymateb i'r tân yn dangos fod yma ŵr sy'n deall beth sydd o wir werth. Beth yw tipyn o glai pan fo rhai yn colli llawer mwy na'r cyfan o'u *'creature comforts'*?

Yn ein byd bach global gwelsom dîm achub o Benmaenmawr yn rhan o'r ymdrech i dynnu plant o weddillion tai ac ysgolion ym Mhacistan. Clywsom hefyd am nyrs ifanc o gyffiniau'r Bala yn mynd yno dan faner *Medicins sans Frontiers*. Diolch i Dduw am bobl o'r fath sy'n gwneud a allant i helpu pan fo trasiediau dychrynllyd yn digwydd.

O glydwch a diogelwch ein gwlad ein hunain mae o leiaf ddau beth y gallwn ni eu gwneud er mwyn y rhai a ddioddefodd cymaint. Gallwn weithredu; a'r ffordd amlwg o wneud hynny yw rhoi arian at yr Apêl a wnaed gan yr elusennau, sydd unwaith eto'n ymdrechu i leddfu peth ar ddioddefaint y rhai a gollodd y cwbl. A gallwn weddïo dros y bobl a welsom yn galaru, dros y rhai a anafwyd, dros y rhai sy'n gorfod cerdded milltiroedd i chwilio am fwyd, a thros bawb sy'n eu helpu mewn amgylchiadau mor druenus. Rhoi gan weddïo; a gweddïo gan roi.

JOHN PRITCHARD


**Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern**

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynlluniau Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

**01286 678310**

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

AGE Concern

Mae Age Concern Enterprises Ltd wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI CELTIC WINDOWS**

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad

*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)

# YSGOL BRYNREFAIL



*Gwenno a Caroline yn y gystadleuaeth.*

## Cystadleuaeth Cogydd Ifanc Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005

Unwaith eto mae dwy eneth lwcus wedi cynrychioli Ysgol Brynrefail mewn cystadleuaeth goginio a drefnwyd gan Undeb Amaethwyr Cymru yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol. Bu'n rhaid i Gwenno Jones a Caroline Evans (Blwyddyn 11) goginio pryd blasus na fyddai'n costio mwy na 90c ac a fyddai'n addas fel pryd cinio ysgol! Daeth Caroline yn fuddugol ac enillodd wobr o £100! Dyma'r riset buddugol am beli cig oen a thatws:

*Cynhwysion*
125g o mins cig oen
1 llwy fwrdd o olew
1 ewin garlleg (wedi'i falu'n fân)
pinsiad o paprika
1 llwy fwrdd o saws coch
1 llwy fwrdd o biwro tomato
1 gwydraid o win coch
*Ar gyfer y tatws:*
1 dysen ac 1 panas wedi'u plicio a'u torri'n gwibiau
llwyaid dda o hufen
halen a phupur
1 llwy de o nionod bach
30g o fenyn

*Dull*

1. Cynhesu'r popty i 220°C.
2. Berwi'r tatws a'r panas yn araf.
3. Siapio'r mins cig oen yn 8 pêl fechan.
4. Cynhesu padell ffrio a ffrio'r peli am tua 3–4 munud bob ochr gyda hanner yr olew.
5. Trosglwyddo'r peli i dun pobi a'u rhoi yn y popty am 8–10 munud.
6. Gwneud y saws trwy ffrio'r garlleg yng ngweddill yr olew, ychwanegu'r paprika, y saws coch, y piwre tomato a'r gwin. Lleihau'r saws yn y badell am 5 m unud.
7. Gwagio dŵr y tatws a'r panas, eu stwnsio gyda'r hufen gan ychwanegu halen a phupur ato.

Gweini'r peli ar wely o datws a phanas a thywallt y saws drostynt.



*Dylan Huws, James Lewis, Iwan Arwel Jones, Ioan Jones a Bedwyr Davies.*

Mae nifer o ddisgyblion dawnus yr ysgol wedi cael eu dewis i gynrychioli'r ardal mewn gwahanol gampau eleni.

Mae 5 disgybl blwyddyn 10 wedi eu dewis i garfan Rygbi Môn ac Arfon dan 15: Dylan Huws, James Lewis, Iwan Arwel Jones, Ioan Jones a Bedwyr Davies

Ym myd campau'r merched mae Marged Rhys wedi ei dewis i chwarae Hoci dros Wynedd dan-16. Mae pedair wedi eu dewis i garfannau Pêl-rwyd Gwynedd: Ella Christie dan-14, Lowri Hughes Jones a Lowri Elena Jones dan-16, ac Alaw Ceris dan-18.



*Ella Christie, Marged Rhys, Lowri Elena, Lowri Hughes Jones ac Alaw Ceris.*

Yn ystod tymor yr haf fe fu Alaw yn llwyddiannus iawn mewn camp arall, sef Naid Polyn. Wedi ennill ym Mhencampwriaeth Eryri aeth ymlaen i gynrychioli'r ardal ym Mhencampwriaeth Cymru, lle'r enillodd y Fedal Arian. Wedyn cafodd y fraint o gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain gan ddod yn drydydd ac ennill Medal Efydd.

Gala Nofio'r Urdd

Ar nos Fercher, 12 Hydref, ym mhwll nofio Bangor, bu tîm nofio'r ysgol yn cystadlu yng ngala nofio flynyddol yr Urdd. Y mae traddodiad llwyddiannus tu hwnt yn y maes yna yn lleol, gyda nifer o ddisgyblion yn rhan o Glwb Nofio Caernarfon. Eleni croesawyd nifer o ddisgyublion Blwyddyn 7 i'r tîm a llwyddodd pawb i roi perfformiad canmoladwy. Dyma'r canlyniadau:

**Unigol**

*Cymysg Unigol Bl.7 a 8:* Deian Williams, Bl.7 – 2il.
*Cymysg Unigol Bl.11+:* Sion Derfel, Bl.12 – 3ydd.

*Rhydd Bl.7+8:* Owain Llŷr, Bl.7 – 2il; Huw Hastings, Bl.7 – 4ydd.
*Rhydd Bl.9+10:* Iawn Arwel, Bl.10 – 3ydd.
*Rhydd Bl.11+:* Ifan Jams – 2il; Sion Derfel – 3ydd.

*Broga Bl.7+8:* Huw Hastings, Bl.7 – 2il; Deian Williams, Bl.7 – 3ydd.
*Broga Bl.9+10:* Alex Lynes – 4ydd.
*Broga Bl.1:* Sion Garth Owen – 2il.

*Pili Pala Bl.7+8:* Owain Llŷr, Bl.7 – 2il.

**Rasus Cyfnewid**

*Cyfnewid Rhydd, Bl.11+:* Ysgol Brynrefail – 2il
*Cyfnewid Cymysg, Bl.11+:* Ysgol Brynrefail – 2il.


FINE ART
TRADE GUILD
**ORIEL CWM**
**Cwm y Glo**
**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**



**GWYNANT PIERCE**
Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 674183**
**(0589) 899901**

*(Parhad o dudalen 7)*

**Diarhebion a Dywediadau Meddygol**

Dyma weddill y casgliad:

- Daw bol yn gefn.
- Cystal yfed o'r cawl a bwyta o'r cig.
- Enllyn bara da yw eisiau bwyd.
- Hirbryd a wna fawrbryd, a mawrbryd a wna'r mawr gywilydd.
- Chwerw yng ngenau, melys yng nghylla.
- Bol llawn sy'n hollti, nid bol gwag.
- Dyw afal o berllan arall byth yn sur.
- Gwell pryd o eisin na phryd o eisiau.
- Hir y cnoir tamaid chwerw.
- Tân araf dan uwd, tân llym dan lymru.
- Gellir yfed yr afon ond ni ellir bwyta y dorlan.

**Teulu o Redwyr**

Gan Mr John E. Williams, Allt Riwth, Llanrug y daeth gwybodaeth i gadarnhau'r ffaith fod Sammy Williams, Llan Isaf yn rhedwr llwyddiannus. Un llygeidiog oedd Sam, oherwydd damwain efo siswrn pan yn blentyn, ond roedd yn rhedwr arbennig. *'Peth cyffredin oedd eu gweld* (sef y tad a'r mab) *yn ymarfer ar hyd y llwybrau a'r lonydd.'*

Ynglŷn â Chwpan Plas Coch: enillodd y Cwpan yn rhedeg ym Môn, ond roedd Cwpan Plas Coch arall hefyd, sef yr un a gyflwynwyd yn Nhreialon Cŵn Defaid Deiniolen ar un cyfnod. Roedd y cwpan hwn yn rhodd gan Thomas Edwards, Plas Coch, Waun, Penisa'rwaen.

Oes mwy o wybodaeth ar gael am y Treialon?

**Teulu'r Clossiaid**

Ysgrifennwyd llawer am hanes y Clossiaid, ac y mae eu disgynyddion yn frith drwy'r fro a thu hwnt. Yn ystod y mis, deuthum ar draws enw John Closs ddwywaith, a hynny mewn cofnodion sydd wedi bod ar gadw yn Bourne, Swydd Lincoln, ers blynyddoedd. Dyma gartref yr Arglwydd Ancaster o Grimsthorpe, sef perchennog Stâd Gwydir yn Nyfffryn Conwy. Mae toreth o ddogfennau wedi eu cyflwyno i'r Archifdy yng Nghaernarfon, ac ymhlith yr holl bapurau a phetheuach printiedig, mae llyfrau cofnodion am fwyngloddio cynnar yn ardal Trefriw a Llanrhychwyn.

Daw enw John Closs (sef yr un person ac a fu'n gysylltiedig â gwaith copr Nant Peris) i'r amlwg yn 1759, pan gofnodir talu chwarter cyflog iddo (sef £2-8-0) a chwrw tra'n gosod bargeinion ym mis Awst y flwyddyn honno. Fe'i cofnodir hefyd yn gosod bargeinion yng ngwaith John Royle, Gwydir yn 1783.

**Gweithwyr Cwm y Glo**

Cafwyd gwybodaeth am y dynion yn y llun o Gwm y Glo a ymddangosodd ddeufis yn ôl. Ond yn anffodus, does neb yn medru cynnig eglurhad ar y digwyddiad, na pham y dangosir y papur newydd, *News of the World.* Awgrymwyd fod y llun wedi ei dynnu yn gynharach na chanol y pumdegau.

Yr enwau: *(Rhes gefn chwith i'r dde):* Emyr Jones, John Ll. Evans, Wyn Morris, Robert Parry a Gwilym Williams. *Rhes flaen*: Gordon Williams, John Phillips, John Emlyn Watkins, Meurig Rowlands ac Idwal Parry.

**Casglu Cen Cerrig**

Gan Eirwyn Williams, Llwyn Coed, Cwm y Glo y daeth gwybodaeth am hen draddodiad ynglŷn â chasglu cen cerrig. Mae'n cofio clywed sôn am drigolion y Nant Ucha yn casglu cen ac yn ei gario yr holl ffordd i Nefyn i'w werthu. Yna, byddai'r arian a geid amdano yn cael ei wario i brynu penwaig i ddychwelyd i'r Nant. Faint o wirionedd sydd i'r hen draddodiad hwn tybed?

Gyda diolch i bawb a gysylltodd ynglŷn â gwahanol agweddau o hanes y fro. Daliwch i anfon eich sylwadau a'ch ymholiadau. Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515).

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

Cefnogwch ein hysbysebwyr

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts


R. L. DAVIES
Coed Bolyn Mawr, Bethel
JCB *Fastracs* a *trailers* 16 tunnell *diggers* bychain ac *excavators* 360° newydda llawer mwy
• ar gyfer llogi peiriannau
• tyllu *footings*
• clirio gerddi
• neu unrhyw waith clirio safleoedd
Ffoniwch am fanylion
(01248) 671300 neu (07775) 638620



LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291
Dewis eang o Welyau a *3P/Suites.*
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.*
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher
GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK


• Priodasau • Dathliadau
• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
• Pwyllgorau • Bwydlen Bar
• Cinio Dydd Sul
QUALITY HOTEL
Quality Hotel Llanberis
(Gwesty'r Fictoria gynt)
– rhan o CHOICE HOTELS
wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis (01286) 870253

Dylan Griffith
TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN
Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833
Symudol: 07778 127394
HEFYD
CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill



# Briwsion Byd Natur

## Dafydd Guto



**Mater Bach o Fynd Ati i...**
Mae'r rhan fwya' ohonom yn hoff ohono, ond bod arferion pawb yn wahanol i'w gilydd – rhai yn ffyddlon iddo; nifer yn methu codi ohono ac eraill yn cadw oddi wrtho hyd nes ei bod hi wedi troi'n oria' mân y bora. Winc-winc! Nod-nod! fel petae! Y *gwely* sy' gen i dan sylw. Ond sut y mae hi ar yr hen adar a'r creaduriaid ym myd natur pan fo'n fater o fynd i gysgu?

Y mae nifer ohonom yn meddwl bod 'deryn yn clwydo'n y cartref dros dro o'i eiddo – y ward geni-rhai-bach. Pur anaml y gwna hynny. Crëwyd y nyth er mwyn dodwy wya' ynddo, eu deor a chadw'r cywion yn gynnes. Pan fo'n ddiwetydd bydd yr aderyn, a welir yn ystod dydd gola' yn sefyll ar friga' coed gerllaw ei drigfan tymhorol. Tra'n cysgu, nid ydyw'n cuddio ei ben dan ei adenydd er mwyn cadw'n gynnas. Mewn gwirionadd, yr hyn a wna ydyw troi ei ben i un ochr a stwffio ei big oddi tan ei blu.

Dyfyniad a geir nesa' o lyfr y diweddar D. J. Morgan, sef *Gemau o Bant a Bryn*, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1954. Cnowch gil arno! Ebe'r Naturiaethwr pybyr o Geredigion, a digwydd y cyfan o'r hanes rhwng diwadd y gaea' a dechra'r gwanwyn:

*Yr oeddwn yn sefyll mewn lle unig un noson... Yn y gwyll gwelwn awyren yn y pellter... Gwrandewais yn astud am fwmian ei pheiriant, ond nid oedd dim... i'w glywed... Er mawr fy syndod canfûm mai ystlum oedd yno... Pwy feddyliai am weld ystlum yr adeg yma o'r flwyddyn?... Ond fe'i twyllwyd yntau gan hynawsedd y tymor. Diflannodd ac ni ddychwelodd. Tebyg iddo ei ail hongian ei hunan wrth hen drawst yn yr ysgubor, a mynd i hirgwsg unwaith eto. Rhaid bod y tymheredd wedi codi, ei waed wedi twymo, ac yntau'n dechrau teimlo chwant bwyd. Rhyw gysgu rhyfedd yw hir-gwsg y gaeaf. Ni all ystlum fyw ar ddi-hun ond am funud mewn awyr o Garbon-Deuocsid, ond yn y cyflwr yma gall fyw ynddo am bedair awr. Po fwyaf marwaidd yw'r creadur pellaf i gyd yw o farw. Dywedir bod rhai o drigolion Siberia yn cysgu y rhan fwyaf o'r nos a'r dydd yn ystod misoedd oeraf y gaeaf.*

Cyfeirio mae'r awdur at Natur yn twyllo adar, planhigion a chreaduriaid, ond ai gwir hynny bob amser?


Yn ystod y flwyddyn 2004 gwyliais raglen deledu dra nodedig o ran y darlunia' cofiadwy a gynhwysid ynddi. Portread ydoedd o gynefin a bywyd gwyllt ym mynyddoedd yr Andes. Disgynnai'r tymheredd mewn un lle hyd at –30°C., a'r modd mae'r *deryn si* yn dygymod â'r oerni pan fo'n cysgu ac yn osgoi ca'l ei rewi i farwola'th ydyw gada'l i'w galon guro'n arafach, a thrwy neud hynny y mae'n llosgi llai o galorïau.

Rhyfedd o fyd – wir i chi, yn enwedig pan fo'n fater o gwsg, a chysgu, ym myd Natur!

**Cystadleuaeth Byd Natur Hydref 2005**

Enw'r ffwngi yn Gymraeg ydyw AMANITA'R GWYBED. Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r gystadleuaeth y tro hwn. Gwyliwch am y gystadleuaeth nesaf yn y misoedd sy' ar ddod.

Ysgol Penisarwaun *(Parhad o dudalen 6)*



*Cyngor yr Ysgol.*



*PC Neil Williams, sy'n ymweld â'r ysgol yn dymhorol i gynnal gweithdai gyda'r disgyblion.*



*Y plant gyda'r ffrwythau a'r llysiau yn y Cyfarfod Diolchgarwch.*



*Taith gerdded hydrefol.*

**Fframia** Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd
**Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:**
**IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW**
**KEITH BOWEN • ROB PIERCY**
**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**
**Ffôn: (01286) 870202**
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**
**YSWIRIO EICH TŶ**
(i arbed colled i chi);
**YSWIRIO EICH CAR**
(i arbed colled i chi ); neu
**YSWIRIO EICH BYWYD**
( i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**
**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**
**CDH**
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
**Ffôn: (01248) 355055**

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CYMDEITHAS LENYDDOL. Croesawodd Jenkin Griffiths, y Llywydd, bawb ynghyd i gyfarfod cyntaf gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni, a braf oedd gweld nifer dda o aelodau wedi troi i mewn. Parti Clychau'r Grug, dan arweiniad Glenys Griffiths, oedd yn diddanu, a chafwyd amrywiol eitemau gan y Parti, yn ganeuon o sioeau cerdd, caneuon cyfoes ac emynau, yn ogystal ag unawd, deuawd a darlleniad. Ar y diwedd cafodd pawb gyfle i ymuno â'r Parti i gydganu Hafan Gobaith. Talwyd y diolchiadau gan Goronwy Jones, yn gyntaf i'r Parti ac yna i Maud Williams a'r merched am baratoi lluniaeth i bawb oedd yn bresennol.

Mair Price, Caernarfon, fydd y siaradwraig wadd yn y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 15 Tachwedd, yn Festri Cysegr.

DIOLCH. Dymuna Alice Jones ddiolch i aelodau Clwb Bro Bethel am eu cefnogaeth ac i bawb ddaru gyfrannu i'r clwb yn ystod yr amser y bu hi yn Drysorydd. Hefyd i Mrs Nerys Owen am gydweithio gyda hi.

CAPEL BETHEL. Cynhaliwyd gwasanaeth llewyrchus o Ddiolchgarwch gan blant yr Ysgol Sul ar 16 Hydref i gynulleidfa deilwng, y thema oedd Derbyn a Rhoi. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd Erin Emlyn, merch Mark a Shan Roberts, Llanrug. Cyfrannwyd £82.72 o gasgliad rhydd at yr Ysgol Feithrin a rhoddwyd y blodau ar fedd Mrs Eluned Ellis Jones.

CYSEGR. Roedd nifer dda yn bresennol yng Nghyfarfod Diochgarwch y Capel yn ddiweddar, gyda phlant yr Ysgol Sul yng ngofal y gwasanaeth. Yn dilyn gair o groeso gan Geraint Elis bu i bob dosbarth gyflwyno eitemau pwrpasol ar lafar ac ar gân yn ymwneud â thymor y cynhaeaf. Cafwyd cyfraniadau hefyd gan dri o bobl ifanc y Capel, sef Iwan Morris a Dafydd Emrys, ac hefyd Siôn Elwyn ar yr organ. Cymdeithas Strôc Caernarfon sy'n derbyn arian rhydd y Gwasanaeth eleni a'r cyfanswm oedd £93.

CLWB BRO BETHEL. Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref dan lywyddiaeth Goronwy Jones. Y gŵr gwadd oedd J. Elwyn Hughes, a chafwyd ganddo sgwrs hynod o ddiddorol ac addysgiadol yn sôn am awdur y nofel fwyaf yn yr iaith Gymraeg, sef Caradog Prichard, awdur *Un Nos Ola Leuad.* Soniodd am y ffaith fod y nofel yma wedi ei chyfieithu i fwy o wahanol ieithoedd nag unrhyw nofel arall, a chafwyd hanes nifer o ddigwyddiadau ym mywyd Caradog Prichard dros y blynyddoedd. Diolchodd William James i'r siaradwr am brynhawn difyr iawn. Bydd y cyfarfod nesaf ar 1 Tachwedd, yn Festri Bethel am 2.00 y pnawn yng nghwmni Gwynfor Ellis.

ADRAN YR URDD. Mae 72 o blant o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 6 wedi ymaelodi gyda'r Adran eleni. Mae'r Adran yn cyfarfod bob yn ail nos Fercher drwy'r flwyddyn. I ddechrau'r tymor ar nos Fercher, 5 Hydref, cafwyd gêm o Bingo. ac roedd y plant wedi mwynhau yn arw. Bydd Ruth Lloyd yn cynnal gweithdy Drama ar nos Fercher, 19 Hydref. Ar ôl yr hanner tymor mae nifer o weithgareddau wedi eu trefnu fel chwaraeon, disgo gwisg ffansi a chelf Nadolig. Bydd cyfle hefyd i rai gystadlu mewn Gala Nofio'r Urdd ar ddiwedd mis Tachwedd.

UWCH ADRAN YR URDD. Mae 28 o blant o Flwyddyn 7,8 a 9 wedi ymaelodi â'r Uwch Adran. Mae nofer o weithgareddau wedi eu trefnu ar eu cyfer yn ystod y tymor fel ymweliad â set *Rownd a Rownd* ar nos Fercher, 19 Hydref. Bydd sesiwn yn y Neuadd Goffa ar nos Fercher, 9 Tachwedd, gyda Guto Williams o'r Urdd.

Ar nos Fercher, 5 Hydref, aeth criw ohonynt i'r pwll nofio yng Nghaernarfon.

MERCHED Y WAWR. Yng nghyfarfod mis Hydref y gangen croesawodd y Llywydd, Sian Davies, ddwy aelod newydd, sef Joyce Roberts ac Edith Jones o'r Felinheli. Croesawodd hefyd gyn-aelod, sef Mair Price o Gaernarfon.

Treuliwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni'r bardd, Myrddin ap Dafydd, a ymwelodd â'r gangen drwy nawdd yr Academi. Adroddodd hanes digwyddiadau a phrofiadau o gefnidr gwyliau neu ymweliadau, gwaith a bywyd teuluol a roddodd ysbrydoliaeth iddo ysgrifennu cerddi. Mwynhawyd gwrando arno'n darllen rhai o'i gerddi, yn cynnwys un a ysgrifennodd ar ôl darllen gwaith Ynyswyr Blasket yn disgrifio ffordd o fyw cymuned arbennig. Dangosodd fel yr oedd yn cael difyrrwch ac ysgogiad o amrywiaeth o ffynonellau, fel ffresni a doniolwch ac weithiau sobrwydd annisgwyl sylwadau plant neu ffraethineb a gwreiddioldeb llafar gwlad.

Diolchodd Anne Elis i Myrddin am noson mor hwyliog. Roedd yn amlwg oddi wrth ymateb yr aelodau fod pawb wedi mwynhau.

Margaret Williams ac Eirlys Sharpe oedd yn gofalu am y baned a'r raffl, a Beti Owen oedd enillydd y raffl.

Atgoffwyd yr aelodau i ddod ag archeb ac arian y Cinio Nadolig i'r cyfarfod nesaf, pan fydd Rhiannon Parry, Llansannan, yn sôn am un o'i diddordebau ac yn arddangos ei gwaith. Atgoffwyd hwy hefyd am y Cwis Cenedlaethol a gynhelir yng Ngwesty Meifod ar 11 Tachwedd.

EISTEDDFOD. Cynhelir Eisteddfod Bethel eleni ar brynhawn a nos Sadwrn, 19 Tachwedd, yn y Neuadd Goffa. Bydd y Noson Ddawns ar nos Fawrth, 15 Tachwedd, am 6.00 o'r gloch.

Cystadleuaeth sy'n agored i unrhyw un yw'r LIMRIG. Y dasg eleni yw cwblhau limrig sy'n cychwyn fel a ganlyn:

*Roedd Huwcyn yn dipyn o dderyn*

**neu**

*Un drwg ar y naw oedd 'rhen Huwcyn*

Y cynigion, o dan ffug-enw, i fod yn llaw yr Ysgrifenyddes, Rhian Hughes, Erddig, erbyn 2 Tachwedd ynghyd ag enw a chyfeiriad yr ymgeisydd mewn amlen.

A fuasai pawb a enillodd darian neu gwpan (i'w cadw am flwyddyn) y llynedd yn eu dychwelyd i'r Ysgrifenyddes cyn 16 Tachwedd, os gwelwch yn dda.

Gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad ariannol tuag at gostau'r Eisteddfod, a chydnabyddir pob rhodd a dderbynnir cyn 10 Tachwedd yn Rhaglen y Dydd.



'OES' O WASANAETH. Mewn cyfarfod arbennig yng Ngwesty Seiont Manor, Llanrug, yn ddiweddar, anrhydeddwyd Ruby Harrison, Bakhita, am gyflawni 44 o flynyddoedd gyda Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched (*WRVS*).

Yn dilyn partneriaeth hir rhwng Cyngor Gwynedd a'r GGBM yn darparu prydau parod i'r henoed, cyflwynodd Mark Lever, y Prif Weithredwr dros Gymru, fedal arbennig i Ruby Harrison ac hefyd i Dilys Roberts o Fangor, fel gwerthfawrogiad o waith diflino y ddwy ac i'w hymroddiad er lles pobl llai ffodus. Erbyn hyn mae'r gwasanaeth pryd-ar-glud fel ag yr oedd, wedi dod i ben, a chafwyd gair o ddiolch i bawb a oedd wedi bod yn gwirfoddoli dros y blynyddoedd i gludo bwyd o amgylch yr ardal.

Yn y llun, gyda Ruby Harrison mae y rhai a fu ynghlwm â'r gwasanaeth ym Methel. *(Rhes gefn):* Jenkin Griffiths, Angela Parry, Freda Jones, Glenys Griffiths. *(Rhes flaen):* Megan Humphreys, Ruby Harrison ac Elizabeth Evans.



*Selwyn Iolen yn cyflwyno llun ohono'i hun yn ei wisg Archdderwydd i Ilid ac Andrew ar ran disgyblion ysgol Bethel.*



**DODREFN PERKINS**
**(Safle'r hen Nelson)**
**CAERNARFON**

**Ffôn: (01286) 676 040**

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco**

**R.M. (DIC) PARRY**
**PEINTIWR AC ADDURNWR**
*PRISIAU RHESYMOL*
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**

# Ymwelydd o LESOTHO i Ysgol Bethel




Croesawyd Mr Calextus Mosalemane o Lesotho i'r ysgol yn ddiweddar. Bellach mae Ysgol Bethel a'i ysgol yntau – Ysgol Amohelang yn Semonkong, Lesotho – wedi eu gefeillio. Cafodd Mr Mosalemane gyfle i ymweld â'r dosbarthiadau i gyd a chyfle hefyd i gael ei holi gan y plant. Yn sicr, roedd y plant wedi elwa'n eithriadol o'r profiad o gael cyfle i gyfarfod person o'r wlad fechan sydd yn cael eu hastudio acw fel rhan o'r cwricwlwm Daearyddiaeth. Sylweddolodd y plant pa mor lwcus ydynt – nid oes trydan o gwbl yn Ysgol Amohelang ac mae eu dosbarthiadau mawr heb yr un cyfrifiadur na'r un bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Er y gwahaniaethau, dysgodd y plant fod nifer fawr o bethau yn debyg rhwng y Cymry a'r Sesotho, pobl Lesotho. Y ddwy yn genedl sydd efo iaith eu hunain a thraddodiadau sydd yn ganrifoedd oed, a'r ddwy yn genedl sydd efo'r parch mwyaf tuag at eu gwledydd.

Yn ystod ymweliad Mr Mosalemane â'r ysgol, roedd ymdeimlad fod rhywbeth arbennig iawn yn digwydd gyda dolen amhrisiadwy yn cael ei chychwyn rhwng y ddwy ysgol a'r ddwy wlad. Cafodd Mr Mosalemane gyfle i weld tipyn o ogledd Cymru yn ystod ei ymweliad – taith i gopa'r Wyddfa, Mynydd Gwefru, Llechwedd, Cestyll Caernarfon a Biwmares, Melin Llynon, Swtan, Sŵ Fôr yn y Rhyl, y Gogarth a Goleudy Ynys Lawd. Yn ogystal â hyn, cafodd ei brofiad cyntaf o daith ar y môr a threuliodd ddiwrnod yn Nulyn! Roedd wedi ei syfrdanu â harddwch ein hardal a charedigrwydd y Cymry.

Cafwyd noson arbennig iawn yn yr Anglesey Arms i ffarwelio â'n ffrindiau newydd o Lesotho. Cafwyd eitemau gan gôr plant Ysgol Bethel a Dawnswyr Môn a braf oedd gweld pawb yn ymuno yn yr hwyl.

Terfynwyd y noson drwy ganu ein hanthem Genedlaethol ac yna cawsom y fraint o glywed yr athrawon Sesotho yn canu eu hanthem Genedlaethol hwythau.

Mae Mr Mosalemane bellach wedi cyrraedd adref yn saff yn Semonkong ar ôl taith hir mewn awyren, i Johannesburg yn gyntaf, ac yna taith yr un mor hir mewn bws i Lesotho.

Bydd Mr Dylan Parry yn cael cyfle i deithio i Lesotho ym mis Chwefror ynghyd ag athrawon eraill o ysgolion Amlwch, Llanfechell a Rhosneigr, sydd hefyd wedi gefeillio eu hysgolion hwythau gydag ysgolion yn Lesotho. Bydd Mr Parry yn treulio tua deg diwrnod yn Semonkong ac yn cael y profiad anhygoel o ddysgu dosbarthiadau o blant Sesotho. Bydd y pedair ysgol o Gymru sydd wedi sefydlu'r ddolen yn gyfrifol am lunio rhaglen o weithgareddau a fydd yn seiliedig ar gymharu Lesotho â Chymru – bydd plant o bedair ysgol yn sicr o elwa'n fawr o'r pecyn gwaith a'r profiadau uniongyrchol fydd yr athrawon Cymreig yn dod yn ôl i'r ysgolion yng ngogledd Cymru.



## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CYDYMDEIMLAD. Ddechrau Hydref bu farw un o drigolion hynaf y pentref. Yn ddiweddar roedd Miss Violet Roberts, Deiniol House, wedi treulio cyfnodau ym Mhlas Maesincla ac yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun lle bu farw ar Hydref 3ydd yn 90 mlwydd oed. Bu yn aelod ffyddlon o Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun, gydol ei hoes a chofiwn hi yn cerdded y daith foreol ar y Suliau yn selog i'r gwasanaethau hyd nes y pallodd ei hiechyd. Yn ôl ei dymuniad yno y cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol preifat ac yn dilyn yn y fynwent. Gwasanaethwyd gan y Parchg. Ganon Idris Thomas.

Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â Janet Jones a theulu Cynefin, Erw'r Nant, yn eu profedigaeth o golli eu modryb.

DIOLCH. Dymuna teulu Cynefin ddiolch o galon i deulu, ffrindiau a chymdogion am y cydymdeimlad ddangoswyd tuag atynt yn eu colled.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Roedd cyfarfod mis Medi yn un arbennig i'r aelodau. Hwn oedd y cyfarfod a drefnwyd i ddathlu penblwydd y mudiad yn 90 oed. Cynhaliwyd y cinio dathlu yn y Caban yng Nghanolfan Dylunio a Menter Eryri. Roedd y gangen wedi gwahodd Rol Williams, Waunfawr i'w plith fel gŵr gwadd, oherwydd ei gysylltiadau â'r pentref ac yn arbennig felly oherwydd i'w fam, y ddiweddar Nellie Williams, fod yn ysgrifennydd cangen Brynrefail o Sefydliad y Merched am flynyddoedd maith. Cafwyd argraffiadau diddorol ganddo a mwynhawyd y noson o ddathlu yn fawr iawn.

Noson yng nghwmni Selwyn Jones o'r Heddlu fydd cyfarfod mis Hydref – sgwrs dan y teitl 'Troeon trwstan yr Heddlu'.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD

*Gwasanaeth Diolchgarwch*

Daeth cynulliad teilwng i'r cyfarfod fore Sul, Hydref 2il gyda'r gwasanaeth wedi ei drefnu gan lywydd y mis, Mrs Jennie Angharad Roberts. Croesawodd pawb yn gynnes i'r Oedfa Ddiolchgarwch gyntaf yn y Ganolfan. Cymerwyd y defosiwn gan Mr Richard Wyn Evans. Cafwyd cyfraniadau ymhellach ar ffurf myfyrdodau, darlleniadau o'r Ysgrythur, gweddïau ac emynau gan Norman a Lowri Roberts Williams, Rhian George, Gwyn Hefin ac Ifanwy Jones, Verna Jones, John McBryde, Bertie Roberts, Dafydd G. Ellis ac Emyr Williams.

*Y Gymdeithas.* Bu raid gohirio cyfarfyddiad olaf y tymor o'r Gymdeithas ar Hydref 13eg. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y tymor, yn arbennig y swyddogion fu'n trefnu'r cyfarfodydd. Mae'r ysgrifennydd, John McBryde, yn ôl ei arfer wedi dosbarthu ffurflenni i'r aelodau i dderbyn awgrymiadau am siaradwyr gwadd ar gyfer y tymor nesaf a bydd yn ddiolchgar am eu dychweliad gynted ag y bo modd.

OEDFAON TACHWEDD

6: Parch Iorwerth Jones Owen am 5.30;

13: Mr Clifford Owen, Llanfairfechan, am 5.30;

20: Mr John McBryde, Brynrefail, am 10.00;

27: Parch Eric Jones, Bangor, am 5.30;

Gweinyddir y Sacarament o Swper yr Arglwydd.

Cefnogwch ein hysbysebwyr


**Gosodwr Teils**

Arbenigwr mewn waliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr

Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar

**01286 830 805**





**Dodrefn Da am Bris Discownt**

THE SALES HALL

**Y NEUADD ARWERTHIANT**

**CWM-Y-GLO**

Ffôn: **01286 879060**

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy.

Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a 'Seconds' Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.

Ar Agor: **LLUN – SADWRN 10.30 – 5p.m.**

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar yr 11eg o Hydref. Offrymwyd y weddi agoriadol.

Croesawodd y Cadeirydd Mr Haydn E. Hughes, Swyddog Prosiect Gweithredu Natur Gwynedd. Rhoddodd Mr Hughes gyflwyniad cynhwysfawr a chryno mewn ychydig amser a chafwyd trafodaeth adeiladol ar faterion perthnasol i'r ardal ac i fwriadau'r Cyngor.

**Materion o'r cofnodion**

*Cofeb Rhyfel Capel Maes y Dref.* Derbyniwyd pris Mr Gethin Davies, Gaerwen, o £280 am osod y gofeb ym Mynwent Macpella.

*Ateb gan Gyngor Gwynedd:* Mae'r gwaith o osod golau ar y llwybr ger garej Arfon, Deiniolen, ar raglen y gweithlu. Torrwyd y coed o amgylch y lamp ger Cae Coch.

**Rhoddion 2005/2006**

Gan nad oedd ond 11eg cais i law penderfynwyd gohirio'r drafodaeth tan gyfarfod Tachwedd.

**Cynllunio**

*Atebion Gwynedd:*

Derbyniwyd manylion pam nad oedd angen caniatâd i godi garej ger Bryn Rhedyn, Clwt y Bont. Cynghorwyd datblygwr Cae Rhedyn i ohirio'r gwaith tan derbyn caniatâd.

Caniatawyd tŷ newydd yng Nglanrafon, Penisa'rwaun, ym Medi 2001.

Adroddwyd bod Cae Rhedyn yn cael ei doi ar hyn o bryd. (Hysbysebwyd yr Adran Gynllunio).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr anhegwch bod y garej uchod yn cael ei chaniatáu ac eraill yn talu Pensaer a ffi am gais cyllunio.

*63/81 Caeau Gleision, Rhiwlas:* Gwrthwynebwyd y cais yma oherwydd:

- nad yw adeiadau 3 llawr yn gweddu i'r ardal;
- problemau parcio – ni fydd modurdai i'r tai yma;
- amharu ar olau a golygfa'r tai presennol;
- y datblygiad yng nghanol tai sydd wedi eu sefydlu ers blynyddoedd;
- amharu ar lwybr a ddefnyddir ers dros ugain mlynedd.

**Ceisiadau a dderbyniwyd:**

Estyniad: Rynys, Llanddeiniolen.

Estyniad: 36, Bro Eglwys, Bethel.

Estyniad: Ysgol Gynradd Bethel.

**Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:**

Estyniad dau lawr: 9, Tai madog, Llanrug.

Sied: Tal y Waen, Deiniolen.

Milodfa/Stablau: Cae Howel, Penisa'rwaun.

Estyniad: Blue Peris, Dinorwig.

Mynedfa: 33, Hafod Olau, Deiniolen.

**Cais a wrthodwyd gan Wynedd:**

Newid i 15eg annedd gwyliau, Buarth Bunkhouse, Deiniolen.

**Cyllun Datblygu Unedol Gwynedd**

**Penisa'rwaun**

Newidiadau i'r Cyllun, datblygiad arfaethedig ger Eglwys Santes Helen, Penisa'rwaun. Penderfyniad y Cyngor oedd gwrthwynebu'r newid arfaethedig o beidio ei ddynodi ar gyfer tai a chefnogi'r bwriad gwreiddiol o wyth tŷ. (127 Map 34)

**Rhiwlas**

Penderfynwyd gwrthwynebu'r argymhelliad o tua 70 tŷ ychwanegol yn Rhiwlas.

**Bryn'refail**

Amlygwyd bod gwir angen tai ym Mryn'refail. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd pam na chynhwyswyd hyn yn y Cynllun Unedol.

**Materion eraill**

Cyfeiriwyd at y llifogydd aml ar y ffyrdd canlynol:

Rhwng Lôn Bach awyr a Rhiwlas (gofyn i Wynedd a oes modd codi'r ffordd tua troedfedd yn uwch);

Tal y Waun, Deiniolen: gwter wedi cau;

Y ffordd heibio i gartref yr henoed, Penisa'rwaun;

Ger Trem Eilian, Brynrefail: caeadau yn codi.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 1af o Dachwedd.**

Peidiwch a Gori ar Stori anfonwch hi i'r Eco


Pryd i Bawb

Bwffe blasus o safon at bob achlysur



Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

CESTYLL BOWNSIO

ar gyfer pob achlysur

MÔN MENAI

Holwch am ein atyniad arall ar gyfer plant ifanc

Ffôn: Philip (01248) 714068

07800 964713

ANTUR WAUNFAWR

Nadolig Antur Waunfawr

Nwyddau poblogaidd ar eu newydd wedd, pob un yn wahanol ac yn unigryw i Antur Waunfawr

Crefftau pren a llechi a chrochenwaith amrywiol. Casgliad helaeth o Gardiau Nadolig, pob un wedi ei wneud â llaw. Papur lapio a thags lliwgar. Y dewis gorau o jams, siwtni a *relishes*

**Archebwch y canlynol mor fuan â phosib:**

Cacen Dolig (mawr neu fach)

Pwdin Dolig (mawr, canolig, bach)

Bara Brith • Mins Peis • Brwigig Cartre

Gellir eleni gyflwyno'r uchod mewn hamperi os dymunwch, fydd hefyd yn cynnwys bisgedi cartre a chyflaith

Torchau Nadolig

Cofiwch ddod draw i'r sbri fydd gennym ar Noson Miri Siôn Corn a gynhelir eleni nos Wener, 9 Rhagfyr

Ffôn: **(01286) 650721**

**e-bost: heulwen@anturwaunfawr.org**

Sychlanhau • Altro

Ailwnïo

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

**am help:**

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

Supporting voluntary and community groups


**cysylltwch â Mantell Gwynedd**

– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

# CROESAIR TACHWEDD



**Ar draws**

2. Cyfieithwr llawn tudalennau.
8. Ffurf cyhoeddus o gludo.
11. Mae angen mynd drwy'r fan yma i glywed Gaeleg.
12. Tad fy nhad.
13. Mae rhai yn dweud bod hwn yn newid yn annaturiol.
14. Fel mae un yn cau, agorir un arall.
15. Nid yw'r gair yma yn hir iawn.
18. Cartref dros dro.
20. Byddwch angen hwn i gychwyn y goelcerth.
22. Byddwch yn hwyr heb hwn.
25. Nid oedd lle yma ar un tro.
26. Cartref amddiffynnol Edward I.
30. Ffurfio.
31. Amhosib gwneud brechdan heb hwn.
33. Mae pob pet byw angen hwn.
34. Gwyliwch hwn am lygaid sgwâr.
35. Sawl llygoden dall.
37. Mam Cymru.
38. Eiddo.
39. Mae gennych ddwy o'r rhain i weld y byd.
42. Dylir hwn fod yn ddiogel i gerdded arno.
43. Hwylio neu mordeithio.
47. Tref ac afon yng Ngogledd Cymru.
48. Gwaith nofelwr.
51. Cewch lawer o bleser wrth ddarllen un o rhain.
52. Lliw amgylcheddol.

**I lawr**

1. Os nag oes gennych un o rhain yna bydd rhaid gadael y drws ar agor i Siôn Corn
3. Mae 44 gwlad yma.
4. Cyrchfa yng Ngogledd Cymru.
5. Rydym ni yn un o rhain.
6. Ras ceir.
7. Mae babanod, plant ac oedolion yn defnyddio rhain i yfed.
9. Mae gormod o hwn yn eich 'paned yn ddrwg.
10. Cewch wrando ar Champion 103 hefo un o rhain.
11. Caerlyr Coch, Brie, Gruyere ac yn y blaen.
16. Arferiad cyffur cyfreithiol.
17. Mae llawer o'r rhain mewn band.
19. Nid oes mwg heb hwn.
21. Jerry yw ei enw.
23. Defnyddio goriad.
24. Anifail teyrngarol ar lannau'r Glaslyn.
27. Bwyd cenedlaethol yr Eidal.
28. Un o ffrindiau gorau'r garddwr.
29. Cyfrwng ysgrifennydd.
31. Mab eich tad.
32. Mae angen trwydded i ddefnyddio hon.
36. Cewch ddefnyddio hwn am ddim yn y garej fel arfer.
38. Byd angen un i fynd i weld y pantomeim.
40. Lliw y galarwr.
41. Esgid genedlaethol yr Iseldiroedd.
44. Un o arwyddon y sidydd.
45. Gallwch dreulio oddeutu trydydd o'ch bywyd yma.
46. Gallwch edrych drwy hwn.
47. Preswyliwr o Gaernarfon.
49. Cartref i anifeiliaid y byd.
50. Aur i bysgotwr.

Ar ôl cwblhau croesair mis Tachwedd, gyrrwch eich atebion i Siop Palas Print, Stryd y Farchnad, Caernarfon erbyn 21 Tachwedd.


**CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR**

Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG


## Dyma ganlyniadau croesair mis Medi, o'r diwedd!

Derbyniais atebion gan Olwen Jones, Bethel; Nansi Davies, Rhuthun; N. Hughes, Cwmyglo; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Pat Owen, Caerfyrddin; Gareth Oliver, Tregarth; Alvona Jones, Prestatyn; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Jennie Williams, Clynnog; Nerys Parry-Jones, Morfa Nefyn; Huw Tegid Roberts, Llangefni; H. O. Hughes, Pwllheli; Gwen Griffith, Deiniolen; Eluned Jones a D. B. Williams, Trefor; Olwen Owen, Nan Owen, Moreen Lennon ac A. Hughes, Llanberis; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Mair Evans a Margaret W. Roberts, Caernarfon ac un di-enw.

Ar ôl darganfod mewn llythyr ganddi mai dysgwraig ydyw, rwyf am roi fy £5 olaf i Pat Owen, Bryn Hebog, 13, Woodend, Llanmiloe, Caerfyrddin, SA33 4UG. Bu'n ffyddlon dros y blynyddoedd, fel nifer helaeth ohonoch.

Carwn ddiolch am y llu o lythyrau a dderbyniais gennych, ac am y dymuniadau da a ddatgenir ynddynt.



Diolch i Tecwyn Vaughan o Waunfawr am gytuno i ymgymryd â'r Croesair i'r *Eco*, o hyn allan. Rwyn edrych ymlaen i gael bod yn gystadleydd yn hytrach na gosodwr.

## RHODDION


**£10:** Alwen T. Jones, 12 Rhydfadog, Deiniolen; Meirion Williams, Elidir View, Cwm-y-glo; Merch Mrs Maggie Griffiths, 1 Maes Eilian, Dinorwig, i gofio dathlu pen-blwydd ei mam yn gant oed; Mrs Enid Jones, Bryn Celli, Tal-y-sarn, er cof am Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug, a fuasai'n 90 oed ar 31 Hydref.
**£5:** Mrs Pat Lovell, 1 Gwyrfai Terrace, Deiniolen; Mrs Jean Roberts, 5 Dôl Eilian, Llanberis; Nesta Roberts, Baladeulyn, Newton Street, Llanberis; Eifion a Gwyneth Hughes, Sŵn y Gwynt, Ffordd Padarn, Llanberis; Miss Katie Roberts, Stad Tref Eilian, Waunfawr; Dilwyn a Lesley Jones, 6 Snowdon Street, Llanberis; Len a Carole Porter, Penisarwaun; Alice Jones, Bethel; Clifford a Margaret.
**£2:** Teulu y ddiweddar Mrs Margaret Owen.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr


# H. E. HUGHES
## A'I FEIBION

**Bwthyn Gadlys**
**LLANBERIS**

**FFôn: 870444**



• Gwerthwyr Glo ac
• Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

## Tŷ Gwledig Meifod Bontnewydd

*'Dewch yn gynnar i elwa o gynnig arbennig'*
Cinio o 4.00 y.h. – tan 6.00 y.h.
Dydd Llun i ddydd Gwener
1 Cwrs – £6.95 • 2 Gwrs – £8.95 • 3 Chwrs – £10.95
Prydau bar ar gael hefyd
wedi gweini o 12.00 y.p. tan 9.00 y.h.
*(Bwydlen newydd wedi ei chyflwyno)*
Nawr mae'r hydref wedi cyrraedd a'r gaeaf rownd y gornel cymerwch fantais i fwynhau ein cynnig arbennig yma mewn awyrgylch glyd a chynnes o flaen y tân agored.
*Cysylltwch â ni am fanylion pellach ar* 01286 673351

# CHWARAEON

## CWYN GYNYDDOL

Diddanwr fu Micky Thomas ar sawl lefel – boed ar deledu neu yn destun ambell jôc am arian! Ond roedd hefyd yn chwaraewr dawnus ar y lefel uchaf, a bydd ei gôl i Wrecsam yn erbyn Arsenal yn cael ei hailchwarae droeon am flynyddoedd i ddod.

Testun cyfredol iawn oedd gan Mickey mewn erthygl papur newydd yn ddiweddar, sef cyflwr meysydd pêl-droed ein hardaloedd. Mae'n sôn fel yr aeth i wylio gêm ieuenctid ble roedd un o'r teulu yn chwarae. Yr oedd wedi cywilyddio efo safon truenus y maes ac yn awgrymu ei fod yn beryglus mewn mannau. Yr oedd yn cyfeirio at feithrin 'gwreiddiau y gêm.' Ymddengys mai ar dir sâl iawn y mae'n ofynnol i'r hadau greu gwreiddyn a dwyn ffrwyth.

Yr wyf wrth fy modd yn dyfarnu gemau ieuenctid y fro ar fore Sadwrn. Heb amheuaeth, rhaid canmol y nifer sy'n rhoi o'u hamser ac ymroddiad i feithrin sgiliau'r ieuenctid. Mae arwyddion o hyfforddi cymen ar y mwyafrif o dimau. Mae ymdrech wirioneddol i basio'r bêl, creu gofod a defnyddio lled y maes. Y mae'r plant yn ymateb i'r agweddau positif yma gan ei fod yn arwain at fwy o gyffyrddiadau â'r bel. Y trueni yw gweld yr agwedd iach yma'n cael ei erydu rwyfaint gan gyflwr y meysydd. Yn amlwg, mae nifer o sesiynau hyfforddi yn cymryd lle ar feysydd pob tywydd hefyd, sydd yn meithrin hyder i drafod pêl. Mor wahanol yw hi ar y Sadwrn. Y bêl yn tasgu i bob cyfeiriad, a'r maes heb ei drin – ar wahân i'w farcio – ers wythnosau.

Mewn oes o gyson feirniadu ein hieuenctid rhaid gofyn a yw'r awdurdodau yn anelu, trwy eu cynlluniau datblygu, i feithrin safonau uchel i arddangos sgiliau. Yn fy marn i, mae clwb chwaraeon ieuenctid mewn unrhyw ardal – yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig – yn adnodd cymdeithasol cryf. Mae nifer o'r clybiau hyn wedi bod yn fodd i ddenu, nid yn unig yr ieuenctid, ond hefyd oedolion at ei gilydd.

Rhaid brwydro i wella cyflwr y meysydd yma, yn enwedig o gofio y mynych ddefnydd a wneir ar rhai ohonynt.

Awgrymaf fod y Cyngor Sir – drwy eu hadran chwaraeon – yn creu rota i'w tirmyn fynd o amgylch y meysydd ieuenctid i dorri, rowlio neu lyfnu'r caeau. Teg fuasai gofyn i'r clybiau dalu am y gwasanaeth – oherwydd buasent yn elwa o'r fath drefn.

Y mae nifer wedi cyfeirio at bolisi John Toshack o feithrin a rhoi cyfle i'r chwaraewyr ieuanc ar y lefel uchaf. Mae'n hen bryd i ardaloedd Gwynedd ddechrau cyfrannu at y symudiad cyffrous yma. Y mae'r dalent yma, ond anodd yw perfformio yn gyson ar 'lwyfan' anwadal.

## AR I FYNY

Llongyfarchiadau i John Williams (Bethel) ac Aled Owen (Llanrug) ar fis llwyddianus iawn i'w clybiau. Mae'r ddau glwb ar rediad da, ac mewn safleoedd cadarn iawn yn y Gynghrair. Llongyfarchiadau hefyd i bwyllgor Llanrug am gyflwr ardderchog Eithin Duon.

Ym myd rhedeg traws gwlad braf yw gweld enwau Alun Vaughan a Dylan Jones yn ymddangos yn gyson ymysg ceffylau blaen y gamp.

Gofynnwyd i mi hefyd gyfeirio at gamp fwyaf y mis, sef Llifon Griffith (Lôn Glai) yn curo y 'di-guro' Bingham (Wellington) 2–1 mewn gêm gwpan 501 yn ddiweddar. Un dart ar dwbwl wyth! Dim problem i Llifon! Edrychwn ymlaen at gyhoeddi'r llyfr.

## YDY HENSON YN IAWN?

Un o'r atebion mwyaf praff y dyddiau diwethaf yma oedd ymateb David Moffatt pan ofynnwyd iddo am ei farn am Gavin Henson.

'Gobeithio na fyddwn yn ei gofio am un gic yn erbyn Lloegr, a mynd allan hefo Charlotte Church,' oedd yr ateb agos i'w le. Gobeithio y bydd hyn yn wir am yrfa y chwaraewr ieuanc dawnus yma. Y mae wedi denu cryn sylw yn ddiweddar ynglŷn ag ambell farn ddi-flewyn ar dafod yn ei lyfr cyfredol. Y mwyaf ymfflamychol yw codi'r hen grachen o bwy sy'n gymwys i gynhyrchioli Cymru.

Ar hyn o bryd mae rheolau y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol yn caniatáu i chwaraewr gynrychioli ei wlad fabwysiedig os yw wedi byw yn y wlad honno yn ddi-dor am dair blynedd. Mae nifer o'r gwledydd bychain fel Cymru, Iwerddon, Yr Alban a Japan wedi elwa o'r rheol hon. Hefyd mae y 'cawr mawr', Seland Newydd wedi cribinio Ynysoedd y De ers sawl blwyddyn bellach.

Cyfeiria Henson at ddau aelod cyfredol o garfan Cymru – Hal Luscombe (De Affrica) a Brett Cockbain (Awstralia) – sydd wedi gwisgo'r crys coch. Ni all unrhyw un wadu eu hymroddiad i'r achos dros eu gwlad fabwysiedig, ond y cwestiwn yw a ydynt yn deilwng i chwarae? A yw chwarae y 'tramorwyr' hyn yn amddifadu Cymro cynhenid o'r cyfle o wireddu breuddwyd?

Rhanedig iawn fu barn nifer o'r gwybodusion a holwyd, ond synhwyraf fod rhyw deimlad o gytuno â Henson gan yr ambell Gymro Cymraeg a holwyd. Cafwyd camddefnydd amlwg ar rai achlysuron gydag ambell Gymro 'ffug' yng ngharfan Graham Henry. Yna, cafwyd y sefyllfa o ddenu Jason Jones Hughes o Awstralia i gryfhau ganol cae Cymru. 'Digwyddodd, darfu, megis seren wib,' a hynny wedi iddo dderbyn pecyn ariannol derbyniol iawn.

Yr wyf wedi bod yn grediniwr cryf fod plygu rheolau fel hyn ym myd y campau yn beth anaturiol. Dylai Cymry o fagwraeth fod yn ddewis cyntaf yn ein timau cenedlaethol. Yn yr un modd – ac nid plwyfoldeb yw hyn – credaf y dylai'r prif hyfforddwr hefyd fod yn berson cynhenid. Onid yw hanes, yn achos Graham Henry a Carwyn James, yn enghraifft teg mor hawdd yw coroni rhywun yn *Great Redeemer*, ond hefyd yn tanlinellu na 'dderbynnir proffwyd yn ei wlad ei hun'.

Oes, mae mantais o ddefnyddio talentau allanol fel Henry a Moffett i gael gwared â'r pydredd trefniadol oedd yn dinistrio degawdau o draddodiad. Nid yw pobl felly yn gysylltiedig â'r carfannau cynhenid sydd â'u agenda personol i warchod safle neu rym. Maent yn ddigon cryf i fynnu newid.

Rhaid cydnabod cyfraniad y ddau am lusgo Cymru i'r byd broffesiynnol, ond mae'r tlysau wedi dod pan mae rhywun fel Mike Ruddock wedi dychwelyd i'r patrymau atyniadol cynhenid Cymreig o chwarae'r gêm. Diddorol yw cymharu perfformiadau Graham Henry wrth baratoi y Teirw Duon, ac anallu Clive Woodward i uno talentau y Llewod.

Pregethodd Carwyn y 'ddawn gynhenid' yn y 70au, a gobeithio y bydd Ruddock, Lynn Jones, Gareth Jenkins, Dai Young a Paul Turner yn cynnal fflam y weledigaeth honno.


**BWS BACH AR LOG**



Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

**D. P. OWENS** RHIWLAS


**GORSAF BETROL**
Esso **BERAN**
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

GWYN JONES
**FFENESTRI ERYRI**
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
neu
07050 357735

FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
PORCHES
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS



BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES